RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
10/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:
20/02/2024

# Gwerthusiad o’r rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau (2015 i 2020)

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-636-0

Gwerthusiad o’r rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau (2015–2020)

Awdur(on): Dr Dyfan Powel, Endaf Griffiths, Llorenc O’Prey, a Mair Bell

Adroddiad Ymchwil Llawn: Powel, D; Griffiths, E; O’Prey, L; Bell, M (2023). *Gwerthusiad o’r rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 10/2024
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-dysgu-creadigol-drwyr-celfyddydau-2015-i-2020

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw’r farn honno o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru na Chyngor Celfyddydau Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Kyle Henry
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: schoolsresearch@llyw.cymru

**Tabl Cynnwys**

1. Crynodeb Gweithredol ........ 6

Trosolwg o'r rhaglen ........ 6

Trosolwg o'r gwerthusiad ........ 7

Trosolwg o'r canfyddiadau ........ 7

Argymhellion ........ 12

2. Cyflwyniad ........ 15

Y rhaglen ........ 15

Y gwerthusiad ........ 19

3. Canfyddiadau: Strwythur ........ 22

4. Canfyddiadau: Effaith ar athrawon ac ysgolion ........ 23

Newidiadau mewn ymwybyddiaeth, diddordeb ac awydd ........ 23

Newidiadau mewn gwybodaeth a galluoedd ........ 25

Newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau ........ 26

Newidiadau ym mherfformiad athrawon ........ 28

Cynaliadwyedd ........ 30

5. Canfyddiadau: Effaith ar Ddysgwyr ........ 35

Newidiadau mewn gwybodaeth a galluoedd ........ 35

Newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau ........ 37

Effaith ar berfformiad academaidd ........ 38

Effaith ehangach ar ddysgwyr ........ 41

6. Canfyddiadau: Effaith ar artistiaid a sefydliadau celfyddydol ........ 43

Newidiadau mewn ymwybyddiaeth, diddordeb ac awydd ........ 43

Newidiadau mewn ymddygiad, agweddau a gwasanaethau ........ 45

Cynaliadwyedd ........ 46

7. Canfyddiadau: Gwerthuso'r Broses ........ 48

Llinyn 1: Ysgolion Creadigol Arweiniol ........ 48

Llinyn 2: Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan ........ 49

8. Casgliad ac Argymhellion .... 54
Cyfeiriadau .... 63
Atodiadau .... 64
Atodiad A: Gwybodaeth Gefndir am y Rhaglen a’r Cynllun .... 64
Llinyn 1: Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol .... 64
Llinyn 2: Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan .... 65
Atodiad B: Y Rhaglen mewn Rhifau .... 68
Atodiad C: Theori Newid .... 71
Atodiad D: Astudiaethau Achos Artistiaid .... 73
Astudiaeth Achos 1: Russell Prue .... 73
Astudiaeth Achos 2: Polly Snape .... 76
Astudiaeth Achos 3: Glenn Davidson .... 78
Canfyddiadau ychwanegol yn seiliedig ar astudiaethau achos eraill .... 82
Atodiad F: Offeryn Pump o Arferion Creadigol y Meddwl .... 84
Copi o’r ffurflen Pump o Arferion Creadigol y Meddwl .... 86
Atodiad G: Holiadur Hunaneffeithiolrwydd .... 88
Atodiad H: Mesur Cyrhaeddiad Disgyblion .... 91

## Rhestr Tablau


Tabl 4.1: Ymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol ar gyfer addysgu a dysgwyr ..................... 23

Tabl 4.2: Cymhellion yr athrawon i gymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ... 24

Tabl 5.1: Pump o Arferion Creadigol y Meddwl: Sgoriau canolrif athrawon ar newid cadarnhaol mewn dysgwyr o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ............................................ 36

Tabl 5.2: Categorïau tystiolaeth ........................................................................................ 38

Tabl A1: Hunaneffeithiolrwydd dysgwyr Blwyddyn 3–4 ............................................................ 88

Tabl A2: Hunaneffeithiolrwydd dysgwyr Blwyddyn 5–6 ............................................................ 89

**Rhestr Ffigurau**


Ffigur 2.1: Diagram y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ... 18

Ffigur 3.1: Model newid ymddygiad sylfaenol ... 22

Ffigur 4.1: I ba raddau y mae athrawon yn teimlo eu bod wedi datblygu Arferion Creadigol y Meddwl o ganlyniad i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (wedi'i godio) ... 27

Ffigur 4.2: Effeithiau'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ar ymarfer athrawon a'u dysg (wedi'i godio) ... 29

Ffigur 4.3: Rhwystrau i athrawon rhag defnyddio arferion a dysgu newydd sy'n deillio o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (wedi'i godio) ... 32

Ffigur 5.1: Effaith prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyrhaeddiad dysgwyr yn ôl data a ddyfynnwyd yn ymatebion y ffurflenni gwerthuso ac a gategoreiddiwyd yn ôl ansawdd ... 40

Ffigur 5.2: Effaith ehangach cadarnhaol ar ddysgwyr fel y nodwyd gan athrawon yn ffurflenni gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol ... 41

Ffigur 6.1: Ymatebion wedi'u cyfuno o'r Arolwg i Artistiaid yn ymwneud â'r rhaglen gyfan (2017–2019) ... 44

Ffigur A1: Theori newid ar gyfer y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ... 71

Ffigur A2: Theori newid ar gyfer Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan ... 72

Ffigur A3: Categoreiddio'r data ... 93

Ffigur A4: Effaith ganfyddedig ar gyrhaeddiad dysgwyr ... 94

Ffigur A5: Effaith yn ôl categori data ... 95

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| COVID-19 | Clefyd Coronafeirws 2019 |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| EDAU | Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Gogledd Cymru |
| GwE | Consortiwm Addysg Gogledd Cymru |
| HMS | Hyfforddiant mewn Swydd |
| PDC | Parth Dysgu Creadigol |
| RAEN | Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol |

## 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Yr adroddiad hwn yw'r adroddiad gwerthuso crynodol terfynol ar raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a gynhaliwyd rhwng 2015 a 2020. Mae'n tynnu ar ganfyddiadau y pum cam blynyddol yn y gwerthusiad gan fynd ati i drafod canlyniadau ac effaith y rhaglen yn ogystal â'r prif wersi a ddysgwyd o'i chynnal.

**Trosolwg o'r rhaglen**

1.2 Nod y Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau oedd cryfhau ac ymestyn y ddarpariaeth addysg gelfyddydol mewn ysgolion ledled Cymru ac annog cyfranogiad yn y celfyddydau a diwylliant. Yn ogystal, cynigiai ystod eang o brofiadau a phrosiectau o dan yr ymbarél dysgu creadigol i gefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm. Ariannwyd y rhaglen ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, gan gael buddsoddiad o tua £20m dros y pum mlynedd o fis Mawrth 2015 hyd at Mawrth 2020.

1.3 Roedd dau linyn arloesol i'r rhaglen o ran gweithgareddau addysgol. Ffocws y llinyn cyntaf, sef y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, oedd gwella cyrhaeddiad drwy ddulliau dysgu creadigol. Rhoddwyd hyfforddiant personol safonedig ac yna cynhaliwyd prosiect dwys, pwrpasol yn yr ysgol, wedi'i gydgynhyrchu rhwng athrawon, dysgwyr ac artistiaid. Amrywiai'r prosiectau o ysgol i ysgol, gan fod pob un yn ceisio ymateb i broblem cyrhaeddiad penodol ymhlith carfan benodol o ddysgwyr a nodwyd gan bob ysgol unigol.

1.4 Yr ail linyn oedd Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan. Roedd hwn yn cynnwys ystod o wahanol weithgareddau a gynlluniwyd i gynyddu a gwella cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid, a sefydliadau celfyddydol / diwylliannol / treftadaeth yng Nghymru fynd ati i bartneru a chydweithio. Ymhellach, ceisiai gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc gael profiad o waith artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol Cymru. Roedd elfennau'r llinyn hwn yn cynnwys Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol (RAEN), porth ar-lein y Parth Dysgu Creadigol (PDC), a Chronfa Profi'r Celfyddydau.

1.5 Ledled y ddau linyn, roedd y rhaglen wedi ymgysylltu a chefnogi 1,237 o ysgolion ledled Cymru (83 y cant o ysgolion a gynhelir) rhwng Mawrth 2015 a Mawrth 2020. Amcangyfrifwyd fod hyn yn cynnwys darparu tua 134,000 o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion a 4,600 o gyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon.

**Trosolwg o'r gwerthusiad**

1.6 Roedd gwerthusiad Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi defnyddio dull cymysg o ddeall effeithiau'r rhaglen a'r prosesau a arweiniodd atynt. Roedd y data a oedd yn sail i'r gwerthusiad wedi'i gasglu a'i ddadansoddi mewn pum cam rhwng 2017 a 2020. Er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd a chyfrannu at ddatblygiad y rhaglen, cwblhawyd camau un i bedwar wrth gynnal y rhaglen, a chwblhawyd y pumed cam ar ôl ei chyflawni.

1.7 Mae'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn yn edrych yn grynodol ar y rhaglen gyfan ac yn ceisio nodi ac egluro'r canfyddiadau cyffredinol o bob cam o'r gwerthusiad.

**Trosolwg o'r canfyddiadau**

*Effaith*

1.8 Nid oes amheuaeth bod y rhaglen wedi bod yn brofiad cadarnhaol ac wedi cael effaith ystyrlon ledled Cymru. Mae'r strwythur dau linyn, gyda'i elfennau ategol amrywiol, wedi galluogi ac annog ymgysylltiad ar wahanol lefelau gan athrawon, dysgwyr, artistiaid, a sefydliadau celfyddydau/diwylliannol.

1.9 Mae elfennau hyfforddi arwyddocaol dau linyn y rhaglen yn dangos yn glir mai egwyddor ganolog y rhaglen oedd meithrin sgiliau a galluoedd athrawon mewn dysgu creadigol. Roedd yr adborth a gafwyd am yr hyfforddiant yn gyson gadarnhaol gydag athrawon yn newid y ffordd yr oeddent yn addysgu drwy ddefnyddio dulliau addysgu newydd a chreadigol. Teimlent yn fwy hyderus gyda'r dull hwn a theimlo ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar staff a dysgwyr. Dywedasant eu bod wedi dod i werthfawrogi creadigrwydd mewn addysg ac yn bersonol wedi dod yn fwy creadigol yn eu dulliau addysgu. Yn ogystal, buont yn trafod manteision a pherthnasedd datblygu addysgeg dysgu creadigol yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru, a hyn wedi rhoi hwb i ddiddordeb ac ymgysylltiad ymhlith athrawon ac ysgolion.

1.10 Mae nifer y disgyblion sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi bod yn sylweddol. Drwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, daeth grwpiau o ddisgyblion o dros draean o ysgolion Cymru i gysylltiad ag ymyriad dwys, gan weithio gydag artistiaid ar brosiectau creadigol ac artistig pwrpasol. Cafodd dros 47,000 o ddysgwyr hefyd brofiad o berfformiadau a digwyddiadau artistig trwy'r grant Ewch i Weld. Drwyddi draw, mae'r rhaglen wedi rhoi modd a galluogi nifer sylweddol o ddysgwyr i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a chreadigrwydd fel modd o ddysgu.

1.11 Roedd gan y gwerthusiad ddiddordeb yn natblygiad creadigol y dysgwyr a gymerodd ran yn y rhaglen, a chyflwynwyd offeryn ar gyfer adfyfyrio, yn seiliedig ar Bump o Arferion Creadigol y Meddwl, er mwyn helpu athrawon i fesur effaith y gweithgareddau.[1] Ategwyd y canfyddiadau hefyd drwy astudiaethau achos a chyfweliadau a gynhaliwyd drwy gydol y gwerthusiad. Mae athrawon yn gyson wedi sôn bod dysgwyr a oedd yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi dangos nodweddion creadigol ac wedi datblygu eu sgiliau. Yn ogystal, mae'r cynllun wedi arwain at farn fwy cadarnhaol gan ddysgwyr o'u hysgol a'u hathrawon ac wedi arwain at deimlo'n fwy hyderus ac ymgysylltu mwy.

1.12 Yn wir, mae'r dysgwyr sydd wedi ymwneud â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol hefyd wedi dangos perfformiad academaidd gwell yn seiliedig ar nifer o wahanol fesurau a ddefnyddir gan athrawon. Ymhlith yr athrawon a oedd wedi cynnal profion cyn ac ar ôl yr ymyriad ar alluoedd y disgyblion a dargedwyd gan y prosiect neu a ddefnyddiodd fesurau cyrhaeddiad a gymeradwyir gan y proffesiwn neu'r diwydiant, teimlai 94 y cant ac 87 y cant yn y drefn honno fod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad y dysgwr. Gall y data roi hyder bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol gan mwyaf ar gyrhaeddiad dysgwyr a hynny'n haeddu ystyriaeth wrth ddatblygu addysgeg yng Nghymru yn y dyfodol.

1.13 Canfuwyd hefyd bod y gwahanol elfennau yn ail linyn y rhaglen wedi cael rhai effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr, ond nid yw'r rhain mor glir a phendant.

---

[1] Offeryn wedi'i ddatblygu gan Dr Ellen Spencer, yr Athro Bill Lucas a'r Athro Guy Claxton. Mae rhagor o wybodaeth am yr offeryn i'w gael yn Atodiad F ac yma: [Teaching for Creativity | A New Direction]

1.14 Cefnogwyd artistiaid gan y rhaglen, yn enwedig y cynlluniau Ysgolion Creadigol Arweiniol a Chydweithio Creadigol, i gael profiad o ddull gwahanol o addysgu a dysgu ac i ddatblygu eu sgiliau a'u gwasanaethau. Soniodd artistiaid am welliannau yn eu hymwybyddiaeth a'u galluoedd eu hunain i ddatblygu gweithgareddau i gyflawni deilliannau dysgu ar gyfer ysgolion, yn ogystal â deall eu heriau a'u blaenoriaethau yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd. Yn ogystal, mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi sefydlu model i ysgolion ac artistiaid gydweithio â'i gilydd, gyda llawer o artistiaid yn edrych i barhau â'u hymgysylltiad ar ôl y rhaglen.

1.15 Mae'r rhaglen wedi cyfrannu at incwm yr artistiaid a'r sefydliadau hyn sydd wedi gweithio gyda'r system addysg i raddau helaethach nag o'r blaen. Mae'r rhaglen, felly, wedi sicrhau swm sylweddol o fuddsoddiad ariannol yn sector y celfyddydau, heb sôn am y buddsoddiad gwybodaeth a chael profiad o'r sector hwnnw. Mae cymryd rhan yn y rhaglen wedi arwain at newidiadau diriaethol mewn staffio a strwythurau mewn rhai sefydliadau celfyddydol e.e. penodi swyddogion addysg ac allgymorth. Mae'r rhaglen hefyd wedi meithrin rhwydweithiau rhanbarthol ac, yn fwy diweddar, rhwydwaith cenedlaethol o artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn benodol i gysylltu ag ysgolion, a hyn yn parhau i fod yn etifeddiaeth gadarnhaol.

*Dyluniad y rhaglen a'i gweithredu*

1.16 Mae gwerthuso'r rhaglen yn ei chyfanrwydd wedi dangos bod mynediad artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ysgolion yn hanfodol i sicrhau bod profiadau celfyddydol o ansawdd uchel yn hygyrch i blant a'u hathrawon mewn ffordd sydd wedi creu sawl ennyd cofiadwy ac wedi sicrhau buddion diriaethol i bawb oedd yn rhan. Mae'n bwysig, felly, bod Cyngor Celfyddydau Cymru fel y prif alluogwr ar gyfer hyn yn gallu cynnal a pharhau i feithrin cysylltiadau ar draws y system addysg yng Nghymru.

1.17 Roedd Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, sef llinyn cyntaf y rhaglen, wedi'i gynllunio'n dda iawn gan ganolbwyntio ar wella cyrhaeddiad addysgol trwy ddulliau dysgu creadigol. Cryfder penodol wrth sicrhau darpariaeth lwyddiannus oedd yr hyfforddiant pwrpasol i athrawon ac artistiaid yn ogystal â lleoli staff gweithredu ar yr un safle â Chonsortia Addysg. Roedd gosod y staff hyn yn gorfforol ochr yn ochr â staff y consortiwm wedi meithrin mynediad hawdd at ei gilydd a sicrhau bod cyfnewid

gwybodaeth yn digwydd yn rhwydd rhwng y ddau bartner. Yn ei dro, mae hyn wedi sicrhau gwaith partneriaeth da ac wedi cefnogi hyrwyddo’r cynllun a recriwtio ysgolion.

1.18 Cynlluniwyd y Llinyn Datblygu yn ddiweddarach yn y rhaglen yn dilyn tair rownd o’r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a chynigai’r llinyn hwn arian ychwanegol i rannu buddion y cynllun megis dysgu, ymarfer ac addysgeg creadigol gydag ysgolion nad oeddynt wedi elwa o’r cynllun gwreiddiol. Dengys y llinyn hwn fod y cylch gwerthuso’n gweithio’n effeithiol a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau cynaliadwyedd a chreu etifeddiaeth ar gyfer y rhaglen.

1.19 Her i’r dyfodol i’r model a ddatblygwyd gan y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yw’r her yn ymwneud â’i natur o fod yn ddwys ei adnoddau a’r gost. Cryfder yr ymyriad oedd ei ddwyster, ond roedd athrawon yn gyson yn nodi bod y tebygolrwydd o ailadrodd y model yn llawn y tu hwnt i gyfyngiadau cyllidebau ysgolion ac felly yn dibynnu ar ddarparu cyllid pellach neu barhaus.

1.20 Canfuwyd hefyd bod ail linyn y rhaglen wedi’i dylunio’n effeithiol. Roedd Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol (RAENs) wedi gallu ymateb i wahaniaethau rhanbarthol yn ogystal â helpu i gefnogi blaenoriaethau’r Consortia Addysg Rhanbarthol, gan ychwanegu gwerth at y system addysg statudol ehangach ochr yn ochr â’u cenhadaeth graidd. Roedd eu gweithgareddau craidd, yn enwedig darparu DPP a chymorth Hyrwyddwyr y Celfyddydau, wedi’u nodi’n gyson gan athrawon a rhanddeiliaid i fod o werth sylweddol, ac roedd pa mor berthnasol oeddynt wedi cynyddu wrth gyflwyno’r Cwricwlwm newydd i Gymru. Fodd bynnag, cyfrannodd rhai penderfyniadau dylunio cychwynnol yn ymwneud â sefydlu’r rhwydweithiau at ddryswch ynghylch maint eu cylch gwaith. Ymdriniwyd â’r mater hwn trwy eglurhad ac arweiniad yn ddiweddarach a hynny wedi gwella perthnasoedd gwaith.

1.21 Dim ond ychydig o addasiadau a mynegiant mwy clir o'r disgwyliadau oedd angen i Gronfa Profi'r Celfyddydau er mwyn sicrhau bod y ceisiadau am y grant Cydweithio Creadigol yn adlewyrchu'r cwmpas a fwriadwyd. Ystyriwyd bod y grant arall Ewch i Weld, a oedd yn llai o faint, yn hygyrch ac yn syml, heb fod angen unrhyw newidiadau pellach.

1.22 Y ffordd fwyaf tebygol o gynnal gweithgareddau ac effaith y Rhwydweithiau fyddai dal ati â DPP a Hyrwyddwyr y Celfyddydau. Fodd bynnag, nododd staff y Rhwydweithiau

ac athrawon yn aml fod cyllid, yn enwedig talu am gyflenwi i alluogi aelodau staff addysgu i fynychu hyfforddiant, yn allweddol ond yn annhebygol o ddod o gyllidebau ysgolion.

1.23 Y tu hwnt i'r profiadau a gafodd dysgwyr ac aelodau staff yn uniongyrchol drwy'r gweithgareddau, ychydig oedd effaith ac etifeddiaeth barhaus Cronfa Profi'r Celfyddydau yn nhyb yr athrawon. Yng nghyd-destun pwysau cynyddol ar gyllidebau ysgolion, roedd pryder hefyd na fyddai ysgolion yn gallu cynnal ac ariannu bod yn gysylltiedig â sefydliadau celfyddydol ac artistiaid yn y dyfodol.

1.24 Mae elfennau o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi sefydlu ffordd o gefnogi cynaliadwyedd ac etifeddiaeth y rhaglen. Yn fwyaf nodedig, mae'r Parth Dysgu Creadigol, yn cael ei ystyried gan athrawon yn adnodd o ansawdd sydd wedi'i ddilysu. Awgryma'r ystadegau ar ddefnyddio'r Parth Dysgu Creadigol mai ei swyddogaeth fwyaf defnyddiol ar gyfer athrawon yw fel storfa ar gyfer astudiaethau achos ac unrhyw enghreifftiau ymarferol eraill o ddysgu creadigol mewn ysgolion. Dengys adborth y gallai cysylltiadau amlwg â'r Cwricwlwm newydd i Gymru wneud yr adnodd yn fwy perthnasol.

1.25 Drwy gydol oes y rhaglen, fodd bynnag, bu'n rhaid i'r Parth Dysgu Creadigol ymgodymu â'r defnydd o lwyfannau sector preifat poblogaidd fel Facebook a Google Scholar. Mewn grwpiau ffocws gydag athrawon yn ogystal â chyfweliadau â Hyrwyddwyr y Celfyddydau datgelwyd eu bod yn chwilio am fwy nag adnoddau wedi'u cymeradwyo gan y Parth Dysgu Creadigol ac yn chwilio am ofod ar-lein i rwydweithio, rhyngweithio, a rhannu syniadau a'u hadnoddau eu hunain. Ni chynlluniwyd y Parth Dysgu Creadigol fodd bynnag i weithredu fel rhwydwaith cymdeithasol a hynny wedi arwain at ddefnyddio llwyfannau eraill at y diben hwnnw.

*Y dyfodol*

1.26 Dyma'r weledigaeth a nodwyd yn 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru (2015–2020):'

> *Dylai'r celfyddydau a dulliau creadigol o ddysgu ac addysgu fod â rhan bwysig yn ein holl ysgolion, lle bo cydweithio a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol a hefyd ag ymarferwyr creadigol yn nodwedd gyffredin, a lle bo arfer da wedi'i rannu ac yn hygyrch i bawb.*[2]

1.27 Yn sicr, mae'r rhaglen wedi braenaru'r tir ar gyfer cydweithio â'r rhanddeiliaid perthnasol i wneud y weledigaeth hon yn bosibilrwydd. Mae'r adroddiad hwn wedi tynnu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad i gloi gyda rhai argymhellion cadarn ar gyfer adeiladu ar y sylfaen hon a sicrhau nad yw perthnasedd dysgu creadigol yn ogystal â mynediad i'r celfyddydau yn cael eu colli nac ychwaith yn colli tir i flaenoriaethau newydd a mwy dybryd i ysgolion ac addysg yng Nghymru.

**Argymhellion**

Yn seiliedig ar gasgliadau'r adroddiad, gwneir yr argymhellion a ganlyn:

**Argymhelliad 1:** Dylid cydnabod y risg mai lleihau fydd y wybodaeth a'r arfer o ddysgu creadigol sydd wedi'i wreiddio mewn athrawon, ysgolion ac artistiaid yn ystod y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Ar yr un pryd, mae potensial i harneisio'r wybodaeth newydd hon i sefydlu a phrif ffrydio ei hymarfer a'i heffeithiau. Er mwyn gwneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ystyried sefydlu perchnogaeth, cyfrifoldeb a mecanwaith cyflawni ar gyfer dyfodol dysgu creadigol sy'n fwy parhaol na'r grŵp llywio sydd wedi bodoli yn ystod y rhaglen.

[2] Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru (2015–2020)

**Argymhelliad 2:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, gyda'i arbenigedd, ei adnoddau, a'i rôl ganolog yn hyrwyddo a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru, yn allweddol i alluogi dysgu creadigol a phrofiadau celfyddydol i ddysgwyr mewn ysgolion. Dylid ei gefnogi i gynnal y maes gwaith hwn fel rhan o'i gylch gwaith craidd, gan sicrhau bod gan artistiaid a sefydliadau celfyddydol wybodaeth, cysylltiadau a phrofiad rhagorol yn gweithio mewn ysgolion ac y gallant alinio eu gwaith â'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

**Argymhelliad 3:** Dylid galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i gynnal a pharhau i feithrin ei gysylltiadau â Chonsortia Addysg Rhanbarthol, adrannau addysg awdurdodau lleol, ac ysgolion fel modd o sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at brofiadau celfyddydol o ansawdd uchel drwy eu hysgolion.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod digon o gefnogaeth a chydgysylltu rhwng y gwahanol gyrff a llwyfannau sy'n hyrwyddo ac yn cynnig profiadau dysgu creadigol a chelfyddydol mewn ysgolion, e.e. Rhwydwaith Cenedlaethol Celfyddydau ac Addysg a plwg.cymru.

**Argymhelliad 5:** Dylid newid ffocws y Parth Dysgu Creadigol i fod yn gadwrfa ar gyfer astudiaethau achos ac unrhyw enghreifftiau ymarferol eraill o ddysgu creadigol mewn ysgolion, gyda chysylltiadau clir â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Ar y lleiaf, dylid ailystyried pwrpas a swyddogaeth y Parth Dysgu Creadigol i asesu a yw'n parhau'n berthnasol yn ei fformat presennol.

**Argymhelliad 6:** Dylai gweithgarwch Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru chwarae rhan wrth gefnogi taith dysgu creadigol Cymru, gan gynnwys gwaith mewn Addysg Gychwynnol Athrawon. Mae angen cymryd camau i ymgysylltu â phartneriaid Addysg Gychwynnol Athrawon a sefydlu eu rôl a'u cylch gorchwyl mewn perthynas â dysgu creadigol.

**Argymhelliad 7:** Dylid hyrwyddo gwybodaeth am yr effaith y mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'i chael ar gyrhaeddiad i arweinwyr ysgol ac athrawon i annog defnyddio a datblygu dysgu creadigol. Dylid parhau i ddefnyddio iaith dysgu creadigol yng nghohebiaeth y cwricwlwm yn ogystal â rhaglenni'r dyfodol er mwyn i'r dull barhau i fod yn berthnasol, a bod athrawon yn dewis parhau â'r maes hwn o ddysgu proffesiynol.

**Argymhelliad 8:** Dylid datblygu model ariannu hirdymor i ysgolion ar gyfer dysgu creadigol a phrofiadau celfyddydol. Dylai'r cwricwlwm gefnogi cronfa o'r fath er mwyn rhoi hyder i ysgolion fod Llywodraeth Cymru ac Estyn yn cefnogi ac yn annog y celfyddydau a dysgu creadigol, yn enwedig cydweithio ag artistiaid allanol. Bydd cronfa sefydledig hirdymor yn galluogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol i fuddsoddi a chynnig gwasanaethau a phrofiadau o ansawdd uchel wedi'u teilwra, gan gefnogi'r diwydiant i dyfu o ran hyder, statws ac arloesedd.

**Argymhelliad 9:** Wrth sefydlu ac is-gontractio partneriaid cyflenwi, yn yr achos hwn y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol (RAEN), mae'n bwysig sicrhau bod y cylch gwaith a nodir a'r canllawiau cysylltiedig yn cynnwys disgwyliadau sy'n ymwneud â chanlyniadau, yn ogystal â manylion am y mathau o weithgareddau a ddymunir. Dylid darparu cyfarwyddyd clir ac eglur mewn perthynas â gwerthuso a chasglu data o'r cychwyn cyntaf hefyd.

**Argymhelliad 10:** Os yw'r ymrwymiad i'r weledigaeth ar gyfer Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn parhau yng Nghymru, yna mae angen cynllun gweithredu newydd i adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd gan y rhaglen. Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth, ymgynghori ac adnoddau yn ogystal ag ystyried yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r dadansoddiad crynodol terfynol wrth werthuso'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a gynhaliwyd rhwng 2015 a 2020. Mae'n tynnu ar ganfyddiadau ar draws y pum cam gwerthuso blynyddol i amlygu a thrafod canlyniadau ac effaith y rhaglen yn ogystal â'r prif wersi a ddysgwyd o'i gynnal.

**Y rhaglen**

2.2 Roedd y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Fe'i sefydlwyd yn 2015, a chynigai'r rhaglen ystod eang o brofiadau a phrosiectau o dan yr ymbarél dysgu creadigol. Defnyddiwyd y celfyddydau i gefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys rhifedd, gwyddoniaeth a dinasyddiaeth. Yn gyffredinol, aeth y rhaglen ati i gryfhau ac ymestyn y ddarpariaeth addysg gelfyddydol mewn ysgolion ledled Cymru ac annog cyfranogiad yn y celfyddydau a diwylliant.

2.3 Cododd y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau mewn ymateb i adolygiad annibynnol yr Athro Dai Smith ar addysg y celfyddydau yng Nghymru (Smith, 2013). Archwiliodd yr adolygiad sut y gellid defnyddio'r celfyddydau'n fwy cynhyrchiol mewn lleoliadau addysgol i wella canlyniadau addysgol tymor hwy. Gan amlygu pwysigrwydd creadigrwydd mewn dysgu, nododd yr adolygiad 12 o argymhellion, a'r rheiny yn cynnwys yr ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg gelfyddydol o ansawdd uchel.

2.4 Ym mis Mawrth 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r adolygiad, gan gytuno i bob un o'r 12 argymhelliad. Mewn cydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru, datblygodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu (Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, 2014). Nod y cynllun gweithredu oedd sefydlu rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau wedi'u cynllunio i wella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd, meithrin hyder a sgiliau athrawon, a chryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol.

2.5 Deilliodd y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau o'r cynllun gweithredu ac ariannwyd y rhaglen ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, gan fod â chyfanswm buddsoddiad o tua £20m dros y pum mlynedd rhwng Mawrth 2015 a Mawrth 2020. Mae cyfnod etifeddiaeth y rhaglen wedi bod yn rhedeg ers hynny.

2.6 Roedd y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn cynnwys dau linyn arloesol ar gyfer gweithgareddau addysgol. Y llinyn gyntaf oedd y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, a hwn yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad addysgol trwy ddysgu drwy ddulliau creadigol. Cynigiai hyfforddiant safonedig mewn person ac ymyriad dwys a oedd yn dod ag athrawon a dysgwyr at 'Asiantau Creadigol' ac 'Ymarferwyr Creadigol'[3] mewn lleoliad ysgol gynradd, uwchradd neu arbennig. Rôl yr Asiant Creadigol oedd mentora a chynghori ysgol, eu helpu i nodi mater cyrhaeddiad penodol gyda grŵp o ddysgwyr penodol, yn ogystal â llunio prosiect i ymateb iddo. Byddai'r Asiant Creadigol wedyn yn recriwtio Ymarferwyr Creadigol i gynnal y prosiect mewn partneriaeth ag athrawon a dysgwyr. Roedd pob ysgol yn cymryd rhan am ddwy flynedd gan gynnal dau brosiect gwahanol. Gyda'i ffocws ar addysgeg dysgu creadigol a chynllunio'r cwricwlwm, nod y cynllun hefyd oedd cefnogi ysgolion i weithredu ac ymgorffori'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

2.7 Roedd tair rownd i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, wedi'u dilyn wedyn gan y Llinyn Datblygu. Wedi'i gyflwyno yn 2018/19, cynigai'r Llinyn Datblygu ragor o gyllid i nifer lai o ysgolion a oedd wedi elwa o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Roedd hyn er mwyn eu galluogi i rannu dysgu, arferion, ac addysgeg creadigol ag ysgolion nad oeddent wedi elwa o'r cynllun gwreiddiol.

2.8 Yr ail linyn oedd Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan. Roedd hwn yn cynnwys ystod o wahanol weithgareddau a gynlluniwyd i gynyddu a gwella cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid, a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol/treftadaeth yng Nghymru bartneru a chydweithio. Ymhellach, ceisiai gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc


[3] Mae'r rhain yn dermau a fathwyd gan Creativity, Culture and Education (CCE)) sef sefydliad a roddodd gyngor ar ddylunio a gweithredu'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ac a gynhaliodd y sesiynau hyfforddiant cychwynnol i athrawon, asiantau ac ymarferwyr.

gael profiad o waith artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol Cymru. Roedd y cynnig yn cynnwys:

- *Pedwar Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol* (RAEN) a oedd am gynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol mewn ysgolion trwy greu cysylltiadau rhwng: athrawon, addysgwyr, a phartneriaid o'r sector addysg; ymarferwyr celf, sefydliadau celfyddydol, a lleoliadau celfyddydol; sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn ogystal â lleoliadau fel amgueddfeydd a llyfrgelloedd (gan gynnwys gwasanaethau cerdd); a phartneriaid celf a diwylliannol addysg uwch a sector y diwydiannau creadigol. Roedd y Rhwydweithiau yn cynnig Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a datblygwyd rhwydwaith o Hyrwyddwyr Celfyddydau lleol ganddynt.
- *Cronfa Profi'r Celfyddydau* – roedd hon wedi'i chynllunio i annog ysgolion i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc fynd gam ymhellach wrth iddynt archwilio profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol. Roedd dau fath o grantiau ar gael: grantiau llai o faint 'Ewch i Weld' ar gyfer ymweliadau ysgol, a'r grant 'Cydweithio Creadigol' mwy o faint (a oedd wedi ariannu prosiectau creadigol cydweithredol unigryw gydag ysgolion).
- *Y Parth Dysgu Creadigol* – sef llwyfan dysgu ar gyfer Cymru gyfan, ac yn borth ar gyfer y celfyddydau a dysgu creadigol wedi'i gynnal ar Hwb. Cynlluniwyd y porth i'w ddefnyddio gan athrawon, dysgwyr, sefydliadau celfyddydol/diwylliannol, ac ymarferwyr.

2.9 Dangosir dau linyn y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ogystal â'u helfennau unigol yn Ffigur 2.1 isod. Ceir rhagor o wybodaeth am gynnwys y rhaglen a'i gweithredu yn Atodiad A.

**Ffigur 2.1: Diagram y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau**




2.10 Rhwng Mawrth 2015 a Mawrth 2020, roedd y rhaglen, ledled y ddau linyn, wedi ymgysylltu a chefnogi 1,237 o ysgolion ledled Cymru (83 y cant o ysgolion a gynhelir). O'r rhain, roedd 1,004 yn ysgolion cynradd (81 y cant o'r holl ysgolion cynradd yng Nghymru), roedd 197 yn ysgolion canol[4] neu uwchradd (95 y cant o'r holl ysgolion canol ac uwchradd wedi'u cyfuno yng Nghymru), ac roedd 36 yn ysgolion arbennig (88 y cant o'r holl ysgolion arbennig yng Nghymru).[5] Amcangyfrifwyd bod hyn yn cynnwys darparu tua 134,000 o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion a 4,600 o gyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon. Ceir crynodeb o'r allbynnau hyn rhwng 2015 a 2020, wedi'u manylu fesul rhanbarth ac elfen y rhaglen yn Atodiad B.

---

[4] Diffinnir ysgolion canol yng Nghymru fel y rhai sy'n darparu ar gyfer disgyblion yr holl ffordd drwodd o 3/4 oed hyd at 16/18 oed.

[5] Mae'r canrannau yn seiliedig ar gyfrifiad ysgolion 2019 i gyd-fynd â chyfnod adrodd Cyngor Celfyddydau Cymru

**Y gwerthusiad**

2.11 Gosodwyd amcan cyffredinol y rhaglen ar adeg ei sefydlu, a'r amcan hwnnw yn cyd-fynd yn uniongyrchol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sef gwella llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith anfantais ac/neu amddifadedd. Nodwyd tri is-amcan hefyd, sef:

1) Gwella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd
2) Cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol mewn ysgolion
3) Cefnogi athrawon ac ymarferwyr celf i ddatblygu eu sgiliau.

Nid yw lleihau effaith anfantais ac/neu amddifadedd wedi'i nodi'n benodol yn y tri amcan mwy penodol hyn ond dylid ei ystyried yn ddealledig ym mhob un.

2.12 Ceisiodd y gwerthusiad ddeall sut y rhoddwyd y rhaglen ar waith ac asesu i ba raddau yr oedd y rhaglen wedi gallu cyflawni ei hamcanion datganedig drwy archwilio'r effeithiau dilynol ar ddysgwyr, athrawon a'r artistiaid a gymerodd ran.

2.13 Y cam cyntaf oedd datblygu theori newid ar gyfer y rhaglen, a hon yn nodi modelau newid ymddygiad ac effeithiau disgwyliedig y rhaglen. Mae hyn wedi rhoi sylfaen a phwynt cyfeirio allweddol ar gyfer y gwerthusiad wrth iddo ddatblygu. Yna defnyddiodd y gwerthusiad ddulliau cymysg, yn feintiol ac yn ansoddol, i ddeall effeithiau'r rhaglen yn ogystal â'r prosesau a arweiniodd atynt.

2.14 Casglwyd a dadansoddwyd data i lywio'r gwerthusiad ar draws pum cam rhwng 2017 a 2020. Er mwyn rhannu'r dysgu a chyfrannu at ddatblygiad y rhaglen, cwblhawyd camau un i bedwar wrth gynnal y rhaglen. Lledaenwyd canfyddiadau o'r camau hyn mewn pedwar adroddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yma dyma gyflwyno crynodeb byr o amcanion a chwmpas pob cam, gyda dolenni i'r adroddiadau cyhoeddedig er gwybodaeth.

- **Cam 1 (Gorffennaf 2017)[6]:** Roedd hwn yn cynnwys datblygu theori newid, mapio'r llwybrau achosol a chanlyniadau bwriadedig y rhaglen. Sail y theori newid oedd cyfres o weithdai cyfranogol, ynghyd ag adolygiad o'r cyd-destun strategol a pholisi a llenyddiaeth y rhaglen. Mae'r theori newid yn sefyll ar ei phen ei hun ac i'w gweld yn Atodiad C ond mae'n well ei deall yng nghyd-destun adroddiad cyfan Cam 1.

[6] Ar gael yma: Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: Adroddiad 1 (theori newid)

- **Cam 2 (Mawrth 2018)[7]:** Roedd hwn yn canolbwyntio ar asesu'r cynnydd cychwynnol gan ddechrau edrych ar y dystiolaeth ar ganlyniadau a godai o ddwy flynedd gyntaf y gweithgarwch (blynyddoedd academaidd 2015–16 a 2016–17). Codwyd data i gefnogi'r dadansoddiad hwn o holiaduron i athrawon, astudiaethau achos, a chyfweliadau manwl ag ystod o randdeiliaid.
- **Cam 3 (Ebrill 2019)[8]:** Yn y cam hwn cyflwynwyd canfyddiadau o ddata a gasglwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2017–18. Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar nodi a rhannu arfer addawol posibl wrth gefnogi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer addysgu a dysgu. Ei sail oedd data a gasglwyd trwy holiaduron i athrawon ac artistiaid, astudiaethau achos, cyfweliadau lled-strwythuredig, ac arsylwadau.
- **Cam 4 (Tachwedd 2020)[9]:** Yma cyflwynwyd canfyddiadau o ddata a gasglwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2018–19. Rhoddodd y dadansoddiad sylw arbennig i effeithiau elfennau o'r rhaglen ar ddysgwyr, athrawon, ac artistiaid a sefydliadau celfyddydol. Roedd ystod amrywiol o ddata yn sail i'r dadansoddiad, gan gynnwys holiaduron, astudiaethau achos, a chyfweliadau manwl ag ystod amrywiol o randdeiliaid (gan gynnwys y dysgwyr eu hunain).

2.15 Sail Cam 5 oedd gwerthuso'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2019-20. Ar gyfer Llinyn 1 roedd hyn yn golygu ffocws ar Linyn Datblygu newydd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, a gefnogodd nifer llai o ysgolion i bartneru a mentora ei gilydd yn eu profiadau a'u dysgu creadigol. Roedd y gwaith maes ar gyfer Cam 5 yn cynnwys:

- Grwpiau ffocws gydag athrawon oedd yn rhan o'r Llinyn Datblygu
- Dadansoddiad manwl o ffurflenni gwerthuso'r ysgolion
- Cyfweliadau â staff rheoli a gweithredu a rhanddeiliaid strategol
- Data monitro gweithgarwch Llinyn 2
- Cyfweliadau â chydlynwyr a staff y Rhwydweithiau

[7] Ar gael yma: Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: Adroddiad 2 (gwerthusiad interim)
[8] Ar gael yma: Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: Adroddiad 3 (gwerthusiad interim)
[9] Ar gael yma: Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: Adroddiad 4 (gwerthusiad interim)

- Dadansoddiad o ffurflenni gwerthuso gweithgareddau a ariannwyd gan Gydweithio Creadigol.

2.16 Oherwydd cau adeiladau ysgolion ar ddechrau pandemig COVID-19, effeithiwyd i raddau ar gyfnod diwedd gwaith maes y gwerthusiad ar gyfer Cam 5; er enghraifft, nid oedd rhai staff ysgol ar gael ar gyfer cyfweliadau gan eu bod yn canolbwyntio ar addasu i addysgu ar-lein. Ni chynhaliwyd rhai cyfweliadau tan 2021, ac felly bu cryn oedi cyn dechrau'r broses o lunio'r adroddiad. Cyflwynwyd dadansoddiad o waith maes Cam 5 i grŵp llywio'r rhaglen a'i drafod. Cytunwyd bod y canfyddiadau'n cadarnhau rhai'r camau blaenorol ac nad oeddent yn cynnig unrhyw fewnwelediadau neu argymhellion sylweddol newydd. O ganlyniad, cytunodd y grŵp llywio y byddai'n well defnydd o amser ac adnoddau pa na châi adroddiad Cam 5 ei gynhyrchu ar wahân ond yn hytrach bod ei ganfyddiadau'n cael eu hintegreiddio yn lle hynny mewn adroddiad gwerthuso terfynol.

2.17 Mae'r adroddiad terfynol hwn yn edrych yn grynodol ar y rhaglen ac yn ceisio nodi a chyfleu'r canfyddiadau trosfwaol ar draws pum cam y gwerthusiad.


2.18 Bydd gwerthusiad ychwanegol ac ar wahân yn ystyried effaith y gweithgareddau yng nghyfnod etifeddiaeth y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, sef y gweithgarwch a gynhaliwyd yn ystod y ddwy flwyddyn academaidd 2020/21 a 2021/22.

2.19 Nod y gwerthusiad yw llywio a chyfoethogi arferion a rhaglenni yn y dyfodol sy'n tynnu ar y celfyddydau, diwylliant a chreadigrwydd i gefnogi dysgu.

# 3. Canfyddiadau: Strwythur

3.1 Mae'r penodau a ganlyn yn cyflwyno dadansoddiad o brif ganfyddiadau camau un i bump y gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Mae'r strwythur yn adlewyrchu'r rhesymeg a nodir yn theori newid y rhaglen fel y'i cyflwynir yn yr adroddiad cyntaf, sef ei fod yn ystyried yr effeithiau ar ymddygiad grwpiau buddiolwyr allweddol mewn perthynas â'r meysydd a nodir yn Ffigur 3.1.

**Ffigur 3.1: Model newid ymddygiad sylfaenol**




3.2 Ceir modelau rhesymeg manwl ynghyd â thabl o ddangosyddion newid ymddygiad a thybiaethau ar gyfer pob grŵp buddiolwyr yn yr adroddiad cyntaf.[10] Yn yr adroddiad terfynol hwn, rydym yn trafod i ba raddau y mae gweithgareddau'r rhaglen wedi cyflawni'r effeithiau bwriadedig a disgwyliedig hyn, gan ddechrau gydag athrawon ac ysgolion, yna dysgwyr ac, yn olaf, artistiaid a sefydliadau celfyddydol.

3.3 Yn dilyn hyn, trafodir canfyddiadau'r gwerthusiad ar y prosesau a oedd yn gysylltiedig â chynnal y rhaglen gyfan, gan edrych yn gyntaf ar Linyn 1 y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, ac yna Llinyn 2 Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan.

[10] Ar gyfer dysgwyr tt.24–26; ar gyfer athrawon tt.27–28; ar gyfer ysgolion tt.29–30, ac ar gyfer artistiaid a sefydliadau celfyddydol tt.31–32.

# 4. Canfyddiadau: Effaith ar athrawon ac ysgolion

4.1 Er mai nod unrhyw ymyriad addysgol yn y pen draw yw bod o fudd i ddysgwyr, mae llwyddiant hirdymor yr ymyriad, yn enwedig i ba raddau y mae'r arferion a'r ymagweddau o ran dysgu creadigol yn cael eu cynnal ac yn parhau i fod ar waith, yn dibynnu ar athrawon yn gwerthfawrogi, datblygu, defnyddio a chynnal arferion a dulliau dysgu creadigol.

4.2 Roedd magu hyder yn ogystal â meithrin sgiliau sy'n gysylltiedig â dysgu creadigol yn ganlyniad allweddol i athrawon a hynny wedi'i nodi yn y broses theori newid yn y gwerthusiad cyntaf. Gallai'r gwelliannau hyn arwain at newid mewn agwedd ac ymddygiad, gan gynnwys yn eu hymarfer yn yr ystafell ddosbarth, a allai, yn ei dro, effeithio ar ddeilliannau dysgwyr (gan gynnwys ymgysylltiad a chyrhaeddiad).

**Newidiadau mewn ymwybyddiaeth, diddordeb ac awydd**

4.3 Holwyd athrawon yn ystod pob cam o'r gwerthusiad ac roedd eu hymatebion yn nodi'n gyson bod eu hymwneud â gweithgareddau'r rhaglen, yn bennaf y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, wedi newid barn rhai athrawon. Er bod y mwyafrif eisoes yn cytuno â gwerth creadigrwydd cyn unrhyw gysylltiad â'r cynllun, mae'r data a gyflwynir yn Nhabl 4.1 isod yn dangos fod athrawon yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o werth creadigrwydd i ddysgwyr ac addysgu ar ôl iddynt gymryd rhan.

**Tabl 4.1: Ymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol ar gyfer addysgu a dysgwyr**[11]

| | Mae sgiliau creadigol ar gyfer addysgu ac ar gyfer dysgwyr yn werthfawr iawn | |
|---|---|---|
| | **Cyn Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau** | **Ar ôl Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau** |
| **Cytuno neu gytuno'n gryf** | 191 | 204 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 11 | 2 |
| **Anghytuno neu anghytuno'n gryf** | 4 | 0 |

Ffynhonnell: Holiadur blynyddol i'r athrawon a gymerodd ran, gan gyfuno data o 2017 i 2019 (N=206)

[11] Cynhaliwyd arolwg bob blwyddyn rhwng 2017 a 2020. Roedd yn bosibl i athrawon ymateb i arolygon ar draws nifer o flynyddoedd ac felly mae'n bosibl y bydd canfyddiadau cyfun wedi'u chwyddo ychydig oherwydd bod unigolion wedi ymateb mewn mwy nag un flwyddyn.

4.4 Dangosodd data o'r Arolwg Athrawon hefyd mai 'diddordeb personol' oedd y prif gymhelliant neu ddymuniad y tu ôl i ymgysylltu â'r rhaglen, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.[12] Mewn blynyddoedd diweddarach, daeth 'datblygiad proffesiynol' i'r amlwg fel cymhelliad allweddol arall ar gyfer ymgysylltu â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru pan ddaeth datblygu addysgeg yn ganlyniad pwysig a grybwyllodd athrawon o'r gweithgareddau.[13]

**Tabl 4.2: Cymhellion yr athrawon i gymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol[14]**

| Roedd athrawon eraill yn ei wneud | Gofynnwyd iddynt wneud | Datblygiad proffesiynol | Diddordeb personol |
|---|---|---|---|
| 10% | 37% | 65% | 73% |

Ffynhonnell: Holiadur blynyddol i'r athrawon a gymerodd ran, gan gyfuno data o 2017 i 2019 (N=211)

4.5 O ystyried gweithgareddau Llinyn 2, a'r ffaith bod mwy na 3,000 o achlysuron pan oedd athrawon wedi dewis mynychu sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) wedi'u cynnal gan y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol (RAEN) a bod athrawon o fwy na 150 o ysgolion wedi ymwneud â Hyrwyddwyr Celfyddydau rhwydwaith, gwelir bod lefel bwysig o ddiddordeb ac awydd ymhlith athrawon i ymgysylltu â dysgu creadigol a'r celfyddydau. Roedd llawer o athrawon wedi ymgysylltu â mwy nag un elfen yn ystod oes y rhaglen.

4.6 Gyda'i gilydd, awgryma'r canfyddiadau hyn fod y cynllun nid yn unig wedi tanio diddordeb newydd neu un oedd eisoes yn bodoli ymhlith athrawon ond hefyd wedi llenwi bwlch pwysig mewn cymorth a datblygiad proffesiynol dysgu creadigol.

[12] Gweler Adroddiad 2: Adran 5.6; Adroddiad 3: Adran 3.2; Adroddiad 4: Adran 1.26.
[13] Gweler Adroddiad 4: Adran 5.12.
[14] Cynhaliwyd arolwg bob blwyddyn rhwng 2017 a 2020. Roedd yn bosibl i athrawon ymateb i arolygon ar draws nifer o flynyddoedd ac felly mae'n bosibl y bydd canfyddiadau cyfun wedi'u chwyddo ychydig oherwydd bod unigolion wedi ymateb mwy nag un flwyddyn.

**Newidiadau mewn gwybodaeth a galluoedd**

4.7 Yn greiddiol i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol oedd hyfforddiant addysgu creadigol ffurfiol i'r holl athrawon. Roedd y rhaglen safonedig hon o hyfforddiant personol dwys a gynhaliwyd wyneb yn wyneb, ac wedi'i weinyddu gan staff sefydliad Creativity, Culture and Education (CCE) a Chyngor Celfyddydau Cymru, wedi sicrhau bod yr holl athrawon a gymerodd ran wedi'u hyfforddi i rannu eu gwybodaeth ag athrawon eraill a rhoi eu sgiliau ar waith mewn gwersi, yn enwedig ochr yn ochr â'r Ymarferwyr Creadigol a oedd yn gysylltiedig â'r prosiectau. Roedd astudiaethau achos, grwpiau ffocws, a chyfweliadau ag athrawon[15] yn gyson wedi sôn am werth ac effaith yr hyfforddiant ar eu hyder yn ogystal ag ar eu gwybodaeth a galluoedd mewn perthynas ag addysgu a dysgu creadigol.

4.8 Roedd Cydlynwyr y Rhwydweithiau wedi hunan-adrodd yn gyson mewn cyfweliadau bod eu DPP wedi ennyn adborth cadarnhaol gan athrawon, gan nodi'n benodol bod y sesiynau'n adeiladu hyder yn ogystal â gwybodaeth a sgiliau.

4.9 Roedd Hyrwyddwyr y Celfyddydau, wedi'u gweinyddu gan y Rhwydweithiau, yn cyflawni nifer o rolau yn ymarferol, gyda'u ffyrdd o weithio yn amrywio o un rhwydwaith i'r llall, yn ôl y bwriad er mwyn cyd-fynd ag amgylchiadau lleol.[16] Cefnogwyd athrawon mewn tair prif ffordd:

- Gweithredai Hyrwyddwyr y Celfyddydau fel broceriaid arfer da a chynnig arbenigedd ar gyfer y rhanbarth ac ymhlith athrawon ac ysgolion.
- Gweithredai Hyrwyddwyr y Celfyddydau fel cynghorwyr neu fentoriaid i ysgolion, adrannau neu athrawon unigol.
- Roedd Hyrwyddwyr y Celfyddydau hefyd wedi cefnogi a datblygu darpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol mewn ysgolion trwy gynnig cefnogaeth ar oblygiadau addysgeg y Cwricwlwm newydd i Gymru.[17]

4.10 Rhoddwyd adborth cadarnhaol yn gyson gan athrawon yn dilyn eu hymwneud â Hyrwyddwyr Celfyddydau'r rhwydweithiau. Cyfeiriwyd yn aml at ddatblygu sgiliau a

---

[15] Gweler Adroddiad 2: Pennod 3; Adroddiad 3: Pennod 3.
[16] Gweler Adroddiad 3: Adrannau 4.80–83.
[17] Gweler Adroddiad 3: Adran 7.58.

hyder fel canlyniad allweddol ymgysylltiad o'r fath, ac mewn rhai blynyddoedd nododd pob ymateb i adran hon yr Holiadur i Athrawon fod elfen rhaglen Hyrwyddwr y Celfyddydau yn rhagorol.[18]

**Newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau**

4.11 Mae data gwerthuso yn awgrymu bod dau linyn y rhaglen wedi arwain at newid mewn ymddygiad ac agwedd ymhlith athrawon mewn perthynas â dysgu creadigol.


4.12 Roedd dwyster hyfforddiant a phrosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'u cynllunio'n glir i annog hyn. Trwy ffurflenni gwerthuso ysgolion, roedd dysgwyr yn adrodd yn gyson bod dysgu yn fwy pleserus ac/neu'n cynnwys dulliau addysgu newydd neu greadigol ac arloesol – o safbwynt dysgwyr, newidiodd yr addysgu o ganlyniad i'r ymyriad.

4.13 Dywedodd staff rheoli'r rhaglen eu bod wedi sylwi ar eirfa gyffredin a oedd yn datblygu yn y proffesiwn addysgu yn ymwneud â dysgu ac addysgu creadigol. Maent yn priodoli ymddangosiad y disgwrs proffesiynol hwn i ymyriad Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae'n ddiddorol nodi bod pwysigrwydd disgwrs proffesiynol yn nodwedd amlwg mewn ymchwil a gynhaliwyd gan yr Athro Pat Thompson, sy'n awgrymu bod trafodaethau proffesiynol artistiaid yn amlwg yn wahanol i rai athrawon mewn ffyrdd a allai wahodd ymgysylltiad mwy manwl â dysgu, ac y gallai hyn arwain at ganlyniadau dysgu gwell.[19]

4.14 Yn Ffigur 4.1 gwelir barn athrawon oedd yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ynghylch sut mae eu Harferion Creadigol y Meddwl eu hunain wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan. Offeryn ymchwil meintiol yw hwn a ddatblygwyd gan Spencer et al. (2012), ac mae'n archwilio pum elfen sef: bod yn chwilfrydig, dyfalbarhad, dychymyg, disgyblaeth a chydweithredu.[20] Arferion cydweithredu a defnyddio'r dychymyg oedd y rhai a grybwyllwyd fwyaf gan athrawon (46 y cant a 37 y cant yn y drefn honno), a chadarnhaodd cyfweliadau ag athrawon fod llawer yn cymhwyso'r arferion hyn yn eu haddysgu yn yr ystafell ddosbarth.

[18] Gweler Adroddiad 4: Adran 2.118.
[19] Gweler Thompson (2011) a Thompson et al (2012)
[20] I gael mwy o gefndir a manylion am y model gweler Atodiad F.

**Ffigur 4.1: I ba raddau y mae athrawon yn teimlo eu bod wedi datblygu Arferion Creadigol y Meddwl o ganlyniad i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (wedi'i godio)**




Ffynhonnell: ffurflenni gwerthuso terfynol, data wedi'i gyfuno o 2017 hyd at 2019 (N=322)

4.15 Dywedodd yr athrawon a gyfwelwyd yn gyson bod profiad y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad a'u hagwedd mewn perthynas ag addysgu. Fodd bynnag, soniwyd ganddynt hefyd fod amgylchedd yr ysgol, ei diwylliant, ac agweddau tuag at y celfyddydau a dysgu creadigol yn ddylanwadol naill ai fel galluogwyr neu rwystrau i gynnal ac ymestyn agweddau cadarnhaol ac arferion dysgu creadigol i gydweithwyr ar draws yr ysgol.

4.16 Pan ofynnwyd i athrawon fyfyrio ar ddarpariaeth Llinyn 2 y Rhwydwaith, soniwyd yn gyson ganddynt am effaith fuddiol y cyrsiau DPP yn ogystal ag arferion newydd ar eu dulliau gweithio a'u hagwedd tuag at y proffesiwn. Ystyrient yr arferion newydd mewn golau cadarnhaol, yn benodol fel dull mwy pleserus a mwy effeithiol o addysgu a dysgu.[21]

4.17 Yn yr un modd, soniodd staff y Rhwydweithiau am yr effaith gadarnhaol yr oedd y gweithgareddau yn ei chael ar les athrawon. Dywedasant fod athrawon yn aml yn

[21] Gweler Adroddiad 4: Adrannau 2.80–2.83.

gwneud sylwadau ar y profiad adfywiol a chyffrous o dderbyn DPP mewn perthynas â'r celfyddydau mynegiannol.[22]

4.18 Mae'r data a archwiliwyd drwy gydol y gwerthusiad wedi awgrymu bod pob llinyn o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau ac ymddygiad athrawon mewn perthynas ag addysgu creadigol. Mae gweithgareddau'r rhaglen wedi ysgogi a rhoi hyder i athrawon i gymhwyso dysgu creadigol i'w hymarfer ac i edrych ar eu proffesiwn yn wahanol.


**Newidiadau ym mherfformiad athrawon**

4.19 Mae mesur newidiadau ym mherfformiad athrawon yn anodd heb ddefnyddio offer ymchwil a allai darfu a bod yn ymwthiol megis arsylwi dwys. Er mwyn ceisio mesur effeithiau yn hyn o beth, ceisiodd y gwerthusiad ddibynnu ar hunanasesu gan athrawon a thynnu ar farn ehangach ar newidiadau ym mherfformiad athrawon ymysg y rhandeiliaid sy'n gweithio gyda nhw, e.e. artistiaid, staff y Rhwydweithiau, ac uwch arweinwyr.

4.20 Drwyddi draw, adroddodd athrawon amrywiaeth o effeithiau ar eu sgiliau yn dilyn ymyriad y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a hynny'n rhoi rhywfaint o fewnwelediad i'w perfformiad. Roedd ffurflenni gwerthuso yn gofyn i athrawon amlinellu'r effeithiau ar eu hymarfer a'u dysgu eu hunain, gyda'r data wedi'i godio a'i gyflwyno yn Ffigur 4.2 isod. Dim ond dau y cant o athrawon a nododd na welsant unrhyw effaith o gwbl, tra nododd y lleill (yn ddigymell) ystod o effeithiau megis dod yn fwy creadigol neu'n fwy arloesol yn eu haddysgu (49 y cant), datblygu dulliau addysgu newydd (44 y cant), mwy o hyder yn eu haddysgu (37 y cant), ac effeithiau cadarnhaol ar ddisgyblion o ran ymgysylltu a dysgu (32 y cant).

[22] Gweler Adroddiad 4: Adran 5.64 ac Atodiad 2, t.113.

**Ffigur 4.2: Effeithiau'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ar ymarfer athrawon a'u dysg (wedi'i godio)**




Ffynhonnell: ffurflenni gwerthuso terfynol, data wedi'i gyfuno o 2017 hyd at 2019 (N=322)

4.21 Mae Ffigurau 4.1 a 4.2 uchod ill dau wedi amlinellu'r ystod o fuddion ac effeithiau y mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'u cael ar athrawon, yn ôl yr athrawon eu hunain. Mae'r newidiadau a ddogfennwyd uchod yn cyd-fynd â'r effaith gadarnhaol y gall y dulliau newydd a chreadigol eu cael ar gyrhaeddiad, hyder a chreadigrwydd disgyblion, fel y gwelir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, ac wrth wneud hynny maent yn rhoi rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad bod y dulliau gweithredu wedi arwain at newidiadau cadarnhaol ym mherfformiad athrawon.

4.22 Wrth gyfeirio at Linyn 2, DPP a Hyrwyddwyr y Celfyddydau, dywedodd staff y Consortia Addysg Rhanbarthol, sef y cyrff sydd â'r dasg o godi safonau perfformiad mewn ysgolion, fod yr adborth a gawsant wedi dangos effaith gadarnhaol ar athrawon

ac addysgeg. Mae'r berthynas waith agos rhwng Edau (rhwydwaith rhanbarthol) a GwE (consortiwm) yn arbennig yn awgrymu bod y cynnig rhwydwaith wedi'i fabwysiadu'n anffurfiol mewn rhai achosion fel rhan o arlwy cymorth addysg proffesiynol ehangach y consortiwm i athrawon y rhanbarth.[23]

**Cynaliadwyedd**

4.23 Mae cynaliadwyedd y newidiadau yn allweddol i effaith a llwyddiant hirdymor y rhaglen. Yn ein barn ni, os gellir cynnal y newidiadau cadarnhaol a amlinellir uchod neu hyd yn oed eu hymestyn i ragor o athrawon ac ysgolion, bydd y rhaglen a'i gwariant a'i hadnoddau cysylltiedig yn parhau i ychwanegu gwerth at addysgu a dysgu yng Nghymru yn y dyfodol. Mewn perthynas ag Ysgolion Creadigol Arweiniol, cwestiwn allweddol yw gofyn a all athrawon barhau i roi eu dysgu ar waith yn ogystal â gweithredu arferion newydd heb y cymorth a roddwyd gan y rhaglen.

4.24 Cefnogwyd ysgolion a gymerodd ran yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol gan Asiant Creadigol am o leiaf dwy flynedd wrth ddod â gwelliannau trwy brosiectau creadigol wedi'u cydgynllunio. Ceisiodd y cymorth ymgorffori arferion addysgu creadigol i greu effaith gynaliadwy. Roedd rhanddeiliaid y rhaglen yn gyffredinol o'r farn bod cymorth uwch reolwyr i ymgorffori'r ymyriad mewn polisi i wella'r ysgol gyfan yn ystod y cam dylunio yn allweddol i lwyddiant yr ymyriad (gellir gweld enghreifftiau o ymyriadau yn Atodiad D: Astudiaethau Achos Artistiaid).

4.25 Roedd rhanddeiliaid y rhaglen wedi nodi diddordeb cynyddol gan uwch arweinwyr ysgolion mewn dysgu creadigol ac addysgu creadigrwydd, a hynny oherwydd y pwyslais ar y celfyddydau mynegiannol yn y cwricwlwm newydd.[24] Yn wir, mae adroddiadau gwerthuso blaenorol yn cadarnhau bod lefel ymgysylltiad penaethiaid ac uwch arweinwyr eraill mewn ysgolion wedi bod yn alluogwr allweddol neu'n rhwystr i'r rhaglen a hynny'n effeithio ar newid. Byddai athrawon yn sôn yn aml am bwysigrwydd uwch dîm arwain cefnogol wrth egluro sut a pham yr oedd yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol. Ar y llaw arall, awgrymwyd hefyd bod uwch arweinwyr heb ddiddordeb ac

[23] Gweler Adroddiad 4: Adran 2.97.
[24] Gweler Adroddiad 3: Adran 3.4.


yn anfoddog yn rhwystr i ddefnyddio neu rannu eu harferion neu wybodaeth newydd yn yr ystafell ddosbarth neu'n ehangach drwy'r ysgol.

4.26 Roedd y gwerthusiad hefyd wedi archwilio'r rhwystrau sy'n wynebu athrawon wrth sicrhau y gellir gweithredu'r arferion a'r dysgu newydd y tu hwnt i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae Ffigur 4.3 isod yn cyflwyno ymatebion wedi'u codio a roddwyd drwy'r ffurflenni gwerthuso blynyddol ac mae'n dangos mai'r prif rwystr a wynebai athrawon oedd amser, sy'n awgrymu diffyg amser penodol wedi'i amserlennu neu amser penodol wedi'i drefnu ar gyfer datblygu dulliau addysgu creadigol. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r ail rwystr mwyaf cyffredin, sef gofynion y cwricwlwm.[25]

4.27 Mae'r data hwn yn cefnogi canfyddiadau o gyfweliadau a thrafodaethau ag athrawon drwy gydol y gwerthusiad a oedd yn awgrymu mai eu prif bryderon oedd dod o hyd i amser i addysgu'n wahanol (yn enwedig mewn ysgolion uwchradd) a chyfiawnhau hynny i gydweithwyr a allai fod eisiau canolbwyntio ar flaenoriaethau pennawd eraill yn ogystal â pherfformiad yr ysgol.

[25] Casglwyd y data hwn cyn dechrau pandemig COVID-19. Gall rhwystrau yn ystod ac ar ôl y pandemig fod wedi bod yn wahanol (gweler pwynt 4.30).

**Ffigur 4.3: Rhwystrau i athrawon rhag defnyddio arferion a dysgu newydd sy'n deillio o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (wedi'i godio)**




Ffynhonnell: ffurflenni gwerthuso terfynol, data wedi'i gyfuno o 2017 hyd at 2019 (N=322) Categorïau <5 y cant wedi'u gadael allan.

4.28 Dywedodd athrawon fod rhannu arfer da rhwng cydweithwyr yn ddull arbennig o effeithiol o gyflwyno egwyddorion craidd dysgu creadigol. Edrychodd Adroddiad 3 yn benodol ar rannu arferion a gwybodaeth yn yr ysgolion a oedd wedi cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, a daeth i'r casgliad bod rhannu theori, arferion newydd ac arferion da, a phrofiadau cadarnhaol wir yn digwydd.[26]

[26] Gweler Adroddiad 3: Adrannau 7.27–7.35.

4.29 Roedd data'r Holiadur i Athrawon a gyflwynwyd yn Adroddiad 4 yn awgrymu bod 98 y cant o'r athrawon a ymatebodd a oedd yn rhan o'r Ysgolion Creadigol Arweiniol (115 o'r 117 a holwyd yn 2018–19) wedi rhannu eu gwybodaeth a'u hymarfer ar ryw ffurf neu'i gilydd. Roedd 39 y cant wedi rhannu drwy ddulliau anffurfiol yn bennaf, megis trwy drafodaethau gyda chydweithwyr, tra bod 35 y cant wedi rhannu eu dysgu trwy sesiynau pwrpasol, strwythuredig. Defnyddiwyd diwrnodau HMS gan 19 y cant o athrawon fel modd o rannu eu gwybodaeth, ac roedd pump y cant arall wedi rhannu arferion a gwybodaeth drwy ddulliau eraill.[27]

4.30 Datgelodd cyfweliadau gwerthuso yn 2020 a 2021 â staff y rhaglen ac ysgolion a fu'n ymwneud â Llinyn Datblygu'r Ysgolion Creadigol Arweiniol fod heriau ymarferol wedi bod, mewn rhai achosion, o ran rhannu'r hyn a ddysgwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19 a'r pwysau a'r newidiadau dilynol i ffyrdd o weithio. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i gadw pellter cymdeithasol, tarfu ar amserlenni, a symud i addysgu ar-lein ac yn ôl i'r ystafell ddosbarth a'r angen i ddosbarthiadau gwahanol ynysu, a hyn oll wedi'i gwneud hi'n anodd amserlennu a blaenoriaethu sesiynau ar gyfer rhannu dysgu.

4.31 Mewn perthynas â Llinyn 2 Cronfa Profi'r Celfyddydau, tueddai'r rhai a gyfwelwyd i ystyried mai bach fyddai'r effaith a'r etifeddiaeth barhaus y tu hwnt i'r profiadau uniongyrchol yr oedd y gweithgareddau wedi'u rhoi i ddysgwyr ac aelodau staff. Yng nghyd-destun pwysau cynyddol ar gyllidebau ysgolion, nid oedd aelodau staff yn rhagweld y byddai ysgolion yn gallu cynnal ac ariannu cyfranogiad sefydliadau celfyddydol ac artistiaid yn y dyfodol.[28]

4.32 Mae etifeddiaeth y rhaglen y tu hwnt i Ysgolion Creadigol Arweiniol felly yn llai eglur. Y ffordd fwyaf tebygol o gynnal gweithgareddau ac effaith y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg fydd parhau â gweithgareddau DPP a Hyrwyddwyr y Celfyddydau. Nododd athrawon a staff y Rhwydweithiau yn aml fod y cyllid, yn enwedig talu am athrawon cyflenwi i alluogi aelodau staff i fynychu hyfforddiant, yn allweddol ond yn annhebygol o ddod o gyllidebau ysgolion.[29] Er bod y consortia'n gwerthfawrogi gweithgareddau'r

[27] Gweler Adroddiad 4: Adrannau 1.73–1.77.
[28] Gweler Adroddiad 4: Adrannau 5.38–39.
[29] Gweler Adroddiad 3: Adrannau 4.33 a 4.38.

Rhwydweithiau, mae'n aneglur, fodd bynnag, a ydynt yn gwneud hynny i'r graddau y byddent yn fodlon ariannu'r gweithgareddau hyn eu hunain yn y dyfodol.

4.33 Mae rhai elfennau o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi sefydlu ffordd o gefnogi cynaliadwyedd ac etifeddiaeth y rhaglen. Yn fwyaf nodedig, mae'r Parth Dysgu Creadigol yn cael ei ystyried gan athrawon i fod yn adnodd o ansawdd sydd wedi'i ddilysu,[30] ac mae'r Parth yn cynnig archif ar-lein o offer dysgu creadigol ochr yn ochr ag astudiaethau achos ymarferol ac enghreifftiau i helpu i roi dysgu creadigol ar waith yn yr ystafell ddosbarth.

4.34 Dywedodd staff y Rhwydweithiau Rhanbarthol y byddai'r cysylltiadau a gafodd eu creu a'u meithrin rhwng athrawon a rhwng athrawon ac artistiaid yn parhau, tra bydd llwyfannau ar-lein fel plwg.cymru yn cefnogi'r cysylltiadau hyn ac yn galluogi ymgysylltiad pellach a pharhaus rhwng athrawon ac artistiaid.[31]

---

[30] Gweler Adroddiad 3: Adran 7.68.
[31] Gweler Adroddiad 3: Adran 7.52.

## 5. Canfyddiadau: Effaith ar Ddysgwyr

5.1 Ceisiodd y gwerthusiad gasglu data ar effeithiau elfennau dau brif linyn y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ar ddysgwyr ac ar ganlyniadau dysgwyr. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth feintiol ac ansoddol am farn athrawon am yr effeithiau ar ddysgwyr, yn ogystal ag adborth gan ddysgwyr eu hunain.

**Newidiadau mewn gwybodaeth a galluoedd**

5.2 Roedd gan y gwerthusiad ddiddordeb yn natblygiad creadigol y dysgwyr a gymerodd ran yn y rhaglen ac roedd defnyddio'r offeryn Pump o Arferion Creadigol y Meddwl wedi helpu i fesur effaith gweithgareddau'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ar y grŵp hwn.

5.3 Yn y gwerthusiad, nid oedd defnyddio'r offeryn yn orfodol, ond cyflwynwyd pob athro ac artist a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i'r offeryn a'i gysyniadau yn eu hyfforddiant ac fe'u gwahoddwyd i gyflenwi data drwyddo ar gyfer y gwerthusiad. Y pwrpas oedd darparu data gwerthuso cyffredin i ddangos tystiolaeth o effeithiau'r rhaglen. Yn ogystal, cynlluniwyd yr offeryn i roi dadansoddiad llinell uchaf yn y fan a'r lle ar gynnydd dysgwyr i ysgolion.

5.4 Mae Tabl 5.1 isod yn amlinellu'r gwelliannau a welwyd gan athrawon yng ngalluoedd creadigol dysgwyr ar draws y pum mesur. Nid oedd digon o gyflwyniadau o Rownd 1 Ysgolion Creadigol Arweiniol (y garfan gyntaf o ysgolion a gymerodd ran yn 2015/16 a 2016/17) i gael eu cynnwys yn ein dadansoddiad, ond cafwyd llawer mwy o gyflwyniadau o ysgolion Rownd 2 a 3 a gellir gweld y rhain yn Nhabl 5.1. Câi'r gwelliant a wnaed gan ddisgyblion unigol ym mhob categori ei sgorio gan eu hathro ar raddfa o 1–10 ar ôl yr ymyriad (1 = dim gwelliant a 10 = y gwelliant mwyaf arwyddocaol). Roedd hwn felly yn farn a luniwyd gan athrawon unigol yn seiliedig ar ganllawiau cyffredin. Er ei fod yn farn oddrychol dros nifer fawr o ymatebion, mae'r sgôr gyfartalog yn rhoi syniad o effaith dull yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Canfu'r data welliannau cyson ar draws y pum parth a bod gweithgareddau'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cyfrannu at gyflawni'r nod craidd o wella sgiliau ac arferion creadigol dysgwyr.

**Tabl 5.1: Pump o Arferion Creadigol y Meddwl: Sgoriau canolrif athrawon ar newid cadarnhaol mewn dysgwyr o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol**

| | Chwilfrydig | Dyfalbarhau | Llawn dychymyg | Cydweithredu | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Rownd 2 Blwyddyn 1 (2016/17) (sylfaen: 289 ymateb) | 6.3 | 6.3 | 6.5 | 6.7 | 6.4 |
| Rownd 2 Blwyddyn 2 (2017/18) (sylfaen: 93 ymateb) | 5.7 | 6.2 | 6.2 | 6.6 | 6.5 |
| Rownd 3 Blwyddyn 1 (2017/18) (sylfaen: 635 ymateb) | 6.1 | 6.3 | 6.4 | 6.3 | 6.1 |
| Rownd 3 Blwyddyn 2 (2018/19) (sylfaen: 348 ymateb) | 6.1 | 6.5 | 6.6 | 6.8 | 6.4 |
| Sgoriau ar gyfartaledd ar draws pob rownd (sylfaen: 1,365 ymateb) | 6.1 | 6.3 | 6.4 | 6.3 | 6.1 |

Ffynhonnell: ffurflenni Arferion Creadigol y Meddwl a gyflwynwyd rhwng 2016 a 2019 (N=1,365)

5.5 Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn yn eang trwy'r astudiaethau achos a'r cyfweliadau a gynhaliwyd trwy gydol y gwerthusiad. Roedd sylwadau gan athrawon ar ffurfiau Arferion Creadigol y Meddwl yn aml yn nodi'r modd yr oedd creadigrwydd dysgwyr wedi'i wella gan ddull Ysgolion Creadigol Arweiniol. Ymhellach, byddai'r athrawon eu hunain yn defnyddio iaith dysgu creadigol, gan gyfeirio'n gyson at y Pump o Arferion y Meddwl sy'n angori'r dull. Soniai'r sylwadau ar ffurflenni Arferion Creadigol y Meddwl gan athrawon hefyd fod rhai dysgwyr yn dal i ddefnyddio'r sgiliau creadigol yn fwy cyffredinol yn eu haddysg.[32]

> "Mae['r disgybl] wedi gwella o ran ei chreadigrwydd ac mae hyn wedi'i ddangos drwy ei gwaith arall ym meysydd eraill y cwricwlwm." (**Athrawes**)

> "Mae['r disgybl] wedi magu hyder yn ei allu ei hun. Ers diwedd y prosiect mae ei waith creadigol yn ystafell y disgyblion wedi gwella ac mae wedi ennill 'Seren yr Wythnos' am ei straeon creadigol. Fel gyda bron pob un o ddysgwyr blwyddyn 4, mae['r disgybl] bellach yn siarad Saesneg yn hyderus." (**Athro**)

5.6 Ar draws y gwerthusiad, cafwyd enghreifftiau pellach o dystiolaeth yn dangos effaith elfennau Llinyn 2 y rhaglen ar ddiddordeb a gwybodaeth dysgwyr. Wrth archwilio

[32] Gweler Adroddiad 4: Adrannau 1.57 ac 1.59.

effeithiau Ewch i Weld, er enghraifft, roedd athrawon yn aml yn cydnabod llwyddiant y grant yn cyflawni ei amcanion. Yn fwyaf nodedig, teimlai athrawon fod y grant wedi ehangu profiadau dysgwyr o'r celfyddydau ac wedi helpu i ddatblygu eu gwybodaeth. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai nad ydynt efallai'n cael cyfleoedd helaeth i gael mynediad i'r celfyddydau a chael profiad ohono (yn ôl cyfweliadau gwerthuso Cam 5 yn 2021):

> "Mae un o'r llinynnau, Ewch i Weld, wedi bod yn effeithiol – llwyddiannau enfawr lle roedd blant o ardaloedd difreintiedig Cymru sydd erioed wedi bod i oriel neu theatr yn cael y cyfleoedd hynny." (**Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021**)

5.7 Ymhellach, manylodd astudiaethau achos o brosiectau Cydweithio Creadigol[33] ynghylch y ffordd y gallai dulliau addysgu creadigol ddatblygu diddordeb dysgwyr yn y celfyddydau. Er ei bod yn anodd mesur graddau'r newidiadau, nododd Ymarferwyr, serch hynny, fod dysgwyr wedi cyfeirio'n aml at weithgareddau Cydweithio Creadigol, tra bod disgyblion unigol hefyd wedi sôn am eu hawydd i ddilyn gyrfa yn y celfyddydau.

**Newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau**

5.8 Fel y manylir drwy'r adroddiadau interim, nid oedd data ar ymddygiad dysgwyr unigol o ran presenoldeb ar gael i'r gwerthusiad. Fodd bynnag, roedd peth data ansoddol yn ymwneud â'r prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol yn nodi bod athrawon yn teimlo, mewn rhai achosion o leiaf, bod presenoldeb dysgwyr wedi gwella o ganlyniad i fwynhau ac ymgysylltu.[34]

5.9 O ran agweddau dysgwyr, roedd tystiolaeth gref i awgrymu bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol. Canfuwyd fod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, er enghraifft, wedi cael effaith gadarnhaol ar farn dysgwyr am athrawon a dysgu yn yr ysgol. O ddadansoddi'r ffurflenni gwerthuso a ddarparwyd gan 238 o ysgolion yn Rownd 2 a 3, rhwng 2017 a 2019, gwelwyd bod 85 y cant wedi dweud bod dysgwyr yn canfod bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hathrawon, tra bod 37 y cant wedi nodi bod disgyblion wedi sylwi ar ddefnyddio dulliau addysgu newydd. Dywedodd 38 y cant arall

[33] Gweler Adroddiad 4: Pennod 3.
[34] Gweler Adroddiad 3: Adran 3 ac Adroddiad 4: Adran 3.58.

fod dysgwyr hefyd yn credu bod eu haddysg yn fwy o hwyl neu'n fwy pleserus o ganlyniad i'r ymyriad. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu data cyfweliadau ac astudiaethau achos trwy gydol yr adroddiadau, gyda phob un ohonynt yn awgrymu bod ymgysylltu wedi arwain at newidiadau cadarnhaol yn ymddygiad ac agweddau dysgwyr.

**Effaith ar berfformiad academaidd**

5.10 Is-amcan cyntaf y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau oedd "gwella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd." Fodd bynnag, heriol oedd cynnal dadansoddiad cadarn o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyrhaeddiad, neu berfformiad academaidd dysgwyr o ystyried nifer y dysgwyr dan sylw a'r ystod o ffactorau eraill a all gael dylanwad ar ganlyniadau'r dysgwyr. Serch hynny, mae'r gwerthusiad wedi ceisio cael rhywfaint o fewnwelediad trwy wahanol ffynonellau.

5.11 Trafododd athrawon effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad yn eu ffurflenni gwerthuso gan hefyd fanylu ar y ffynonellau data a ddefnyddiwyd ganddynt. Cafodd y ffynonellau hyn eu categoreiddio yn ôl cadernid y data, gyda Chategori 1 y mwyaf cadarn a Chategori 4 y lleiaf cadarn. Dangosir hyn yn Nhabl 5.2 isod, tra bod manylion llawn y ffynonellau data a'r dull a ddefnyddiwyd i fesur cyrhaeddiad wedi'u cynnwys yn Atodiad H.

**Tabl 5.2: Categorïau tystiolaeth**


| Categori | Disgrifiad |
|---|---|
| Categori 1 | Cynnal profion ar berfformiad a chyrhaeddiad cyn ymyriad ac ar ei ôl. |
| Categori 2 | Data systemau monitro neu fesur cyrhaeddiad wedi eu cymeradwyo gan y proffesiwn neu'r diwydiant a'r data wedi'i gasglu ar ôl yr ymyriad yn unig |
| Categori 3 | Data systemau monitro neu fesur cyrhaeddiad eraill wedi'i gasglu ar ôl yr ymyriad yn unig. |
| Categori 4 | Data o arsylwi neu anecdotau neu farn athro wrth adfyfyrio ar ôl yr ymyriad. |

5.12 Cafodd graddau'r effaith yn ôl barn yr athrawon ar draws yr holl ffynonellau data eu codio a'u categoreiddio gan y tîm gwerthuso yn ôl y categorïau canlynol:

- Effaith gadarnhaol: pan fo athrawon wedi dweud bod gwelliant amlwg mewn cyrhaeddiad oherwydd yr ymyriad, neu pan fo'r data a ddarparwyd wedi dangos o leiaf pump y cant o welliant (e.e. symud o sgôr o 13/20 i 14).
- Rhannol gadarnhaol: pan nad oedd athrawon yn teimlo'n hyderus yn priodoli unrhyw welliannau i'r ymyriad yn benodol, neu pan fo'r data wedi awgrymu gwelliannau bach yn unig, o lai na phump y cant.
- Dim newid arwyddocaol: pan nad oedd athrawon yn ystyried bod yr ymyriad wedi cael unrhyw effaith ar gyrhaeddiad, neu pan nad oedd y data yn awgrymu bod unrhyw effaith.
- Rhannol negyddol: pan oedd cyrhaeddiad dysgwyr wedi dirywio yn ystod cyfnod yr ymyriad ond nid oedd athrawon yn priodoli'r dirywiad i'r ymyriad yn benodol.

5.13 Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn Ffigur 5.1 isod yn awgrymu po orau yw ansawdd y data sydd ar gael a'r mwyaf trwyadl yw'r dull o werthuso effaith ar gyrhaeddiad, yna'r mwyaf tebygol oedd athrawon o nodi effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad o ganlyniad i ymyriad y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn wir, credir bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad mewn 94 y cant o achosion pan oedd profion cyn ac ar ôl wedi'u cynnal yn ogystal ag 87 y cant o achosion pan ddefnyddiwyd systemau monitro neu fesur cyrhaeddiad a gymeradwywyd gan y proffesiwn neu'r diwydiant. Gall y data roi hyder bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol i raddau helaeth ar gyrhaeddiad dysgwyr.

**Ffigur 5.1: Effaith prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyrhaeddiad dysgwyr yn ôl data a ddyfynnwyd yn ymatebion y ffurflenni gwerthuso ac a gategoreiddiwyd yn ôl ansawdd**




Ffynhonnell: ffurflenni gwerthuso terfynol, data wedi'i gyfuno o 2017 hyd at 2019 (N=315)

5.14 Roedd pob prosiect y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn unigryw, ac ynddynt wahanol artistiaid, prosiectau, a charfannau o ddysgwyr yn ogystal â chanolbwyntio ar gyrhaeddiad gwahanol. Cafodd prosiectau penodol eu datblygu'n fwriadol i fynd i'r afael (yn aml yn llwyddiannus) â phroblemau a heriau llythrennedd neu rifedd penodol ar gyfer carfannau o ddysgwyr. Er bod yr amrywioldeb hwn wedi'i gwneud yn amhosibl cymharu eu heffeithiau'n uniongyrchol, gwelwyd bod y dull hyblyg wedi'i deilwra wedi bod o fudd i ddysgwyr. Trwy fynd ati'n fwy creadigol i gynnal gwersi, soniodd athrawon am y potensial i archwilio a mynd i'r afael â heriau cyrhaeddiad yn fwy effeithiol na thrwy wersi wedi'u strwythuro a'u cynllunio'n fwy confensiynol.

5.15 Mae cryn dipyn o fyfyrdodau ansoddol yn ffurflenni gwerthuso'r athrawon, yn seiliedig ar ystod o ffynonellau, felly yn awgrymu y gall yr ymyriad gael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad. Mae'r ffaith bod hyn wedi'i weld ar draws prosiectau o bob math yn awgrymu bod ymagwedd greadigol at addysgu yn ffactor allweddol sy'n arwain at effaith gadarnhaol o'r fath. Erys cwestiynau pwysig, megis i ba raddau y mae'r effaith yn cael ei chadw, ac a yw effaith dysgu creadigol yn drech neu'n fwy arwyddocaol nag effaith dulliau mwy confensiynol o fynd i'r afael â mesurau cyrhaeddiad craidd megis


lefelau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, o'i gyfuno â'r manteision ehangach i hyder ac ymgysylltiad, mae'r dull, ar y lleiaf, yn haeddu ystyriaeth bellach ac, os yw'n bosibl, dadansoddiad mwy rheoledig.

**Effaith ehangach ar ddysgwyr**

5.16 Ceisiodd y gwerthusiad hefyd nodi unrhyw effeithiau ehangach ar ddysgwyr y tu hwnt i'r rhai a ystyriwyd yn wreiddiol ar ddechrau'r rhaglen. Mae'n werth nodi bod yr effeithiau a drafodir yma yn cyd-fynd â'r rhai y cyfeirir atynt yng nghanfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth yn yr adroddiad gwerthuso cyntaf.[35]

5.17 Gofynnai ffurflenni gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol i athrawon ymhelaethu ar yr hyn a dybiant oedd effeithiau ehangach y gweithgareddau ar ddisgyblion a gymerodd ran. Mae Ffigur 5.2 isod yn dangos ymatebion wedi'u codio gan athrawon ledled y tair rownd. Awgrymodd dros hanner (55 y cant) o'r 331 o athrawon a ymatebodd fod yr ymyriad wedi gwella hyder neu annibyniaeth dysgwyr, gyda bron i un o bob pump yn nodi gwell cydweithio/cyfathrebu (21 y cant), gwell ymgysylltu a chyfraniadau (19 y cant), a gwell creadigrwydd/dychymyg (19 y cant).

**Ffigur 5.2: Effaith ehangach cadarnhaol ar ddysgwyr fel y nodwyd gan athrawon yn ffurflenni gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol**




Ffynhonnell: ffurflenni gwerthuso terfynol, data wedi'i gyfuno o 2017 hyd at 2019 (N=331)

[35] Gweler Adroddiad 1: Adran 4.6.

5.18 Roedd y canfyddiadau hyn, yn enwedig cynnydd yn hyder dysgwyr, hefyd yn cael eu nodi’n aml gan athrawon a dysgwyr mewn astudiaethau achos a chyfweliadau ansoddol, tra bod athrawon hefyd yn teimlo bod yr effaith yn hirbarhaol ac yn dal i’w gweld dros flwyddyn yn ddiweddarach.[36]

5.19 Roedd yr offeryn hunaneffeithiolrwydd dysgwr yn holiadur i’w lenwi gan y dysgwyr eu hunain, cyn yr ymyriad ac unwaith eto ar ôl yr ymyriad. Amcan yr holiaduron oedd ceisio mesur yn benodol effaith gweithgareddau ar lesiant disgyblion a’u hagweddau tuag at yr ysgol a dysgu. Anogwyd Ysgolion Creadigol Arweiniol i’w ddefnyddio gyda’u disgyblion ac adrodd amdanynt yn eu gwerthusiadau ar brosiectau. Ceir rhagor o fanylion am yr offeryn yn Atodiad G. Cafwyd sampl digon mawr o ymatebion i fedru eu dadansoddi’n hyderus. Fodd bynnag, nid oedd y data ar y cyfan yn dangos cydberthynas gadarnhaol neu negyddol a oedd yn ystadegol arwyddocaol rhwng y cynllun a llesiant dysgwyr a’u hagweddau at yr ysgol.

[36] Gweler Adroddiad 2: Adran 3.

## 6. Canfyddiadau: Effaith ar artistiaid a sefydliadau celfyddydol

6.1 Roedd artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn ganolog i weithgareddau dau linyn y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, a hynny fel Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol wedi'u hyfforddi mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol, ac fel Hyrwyddwyr y Celfyddydau i'r Rhwydweithiau Rhanbarthol a hefyd fel darparwyr profiadau celfyddydol a diwylliannol i'r dysgwyr hynny a elwodd o Gronfa Profi'r Celfyddydau. Roedd y gwerthusiad felly yn archwilio effeithiau ymwneud â'r rhaglen hon ar yr artistiaid a'r sector yn ehangach.

**Newidiadau mewn ymwybyddiaeth, diddordeb ac awydd**

6.2 Mae'r rhaglen wedi ymwneud â chryn nifer o artistiaid a sefydliadau celfyddydol, a hwythau wedi bod â rhan ganolog wrth gyd-ddylunio, datblygu a chynnal prosiectau ar draws y rhaglen. Roedd cyfranogiad yr artistiaid yn uniongyrchol, gan gynnig profiad ymarferol o ddefnyddio a sylweddoli gwerth sgiliau creadigol i athrawon.

6.3 Ynghyd â datblygu eu hymwybyddiaeth eu hunain, yn ogystal â diddordeb mewn cyfrannu at addysg, siaradodd artistiaid hefyd am sut mae eu hymwneud ar draws y ddau linyn gweithgaredd wedi dylanwadu ar athrawon ac wedi codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion o werth y celfyddydau fel addysgeg:


> "Roedd rhai [athrawon] yn gweld celf fel adloniant, ond rydw i wedi llwyddo i'w darbwyllo. Maen nhw bellach yn gallu gweld ei fudd. Gwn am ddau athro sydd eu hunain bellach wedi dechrau cael gwersi cerdd, piano a gitâr. Maen nhw hyd yn oed wedi mynd i mewn i'r ysgol i ddangos i'r myfyrwyr beth maen nhw wedi'i ddysgu." (**Cyfweliad ag artist ar gyfer astudiaeth achos, 2019**)

6.4 Nododd Cydlynwyr Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol (RAEN) bod yr effaith ar artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn dod yn amlycach wrth i'w cyfranogiad ddwysáu neu barhau. Gallent weld sefydliadau celfyddydol ac artistiaid yn dod yn fwyfwy cyfarwydd â'r disgwyliadau a'r cyfleoedd posibl ar gyfer cyfrannu a chydweithio â'r sector addysg, yn enwedig ar ôl cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.[37]

[37] Gweler Adroddiad 4: Adran 5.65.

6.5 Mae ymatebion i'r Arolwg i Artistiaid ynghylch y rhaglen gyfan, a gyflwynir yn Ffigur 6.1 isod, yn dangos gwelliannau cadarnhaol sylweddol yn ymwybyddiaeth artistiaid o weithgareddau a'u gallu i'w datblygu i gyflawni deilliannau dysgu ar gyfer ysgolion (42 y cant) ac i ddeall eu heriau a'u blaenoriaethau yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd (41 y cant). Mae'n ddiddorol bod lefelau eithaf uchel o 'ddim newid' hefyd. Mae ymatebion ansoddol cysylltiedig i'r arolwg yn datgelu bod hyn oherwydd bod llawer o'r artistiaid a'u sefydliadau eisoes yn ymwneud ag ysgolion ac/neu'r byd addysg, er i raddau llai nag yn ystod y rhaglen.

**Ffigur 6.1: Ymatebion wedi'u cyfuno o'r Arolwg i Artistiaid yn ymwneud â'r rhaglen gyfan (2017–2019)**[38]




Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r artistiaid sy'n cymryd rhan, data wedi'i gyfuno o 2017 hyd at 2019

[38] Cynhaliwyd arolwg bob blwyddyn rhwng 2017 a 2020. Roedd yn bosibl i artistiaid ymateb i arolygon ar draws nifer o flynyddoedd ac felly mae'n bosibl y bydd canfyddiadau cyfun wedi'u chwyddo ychydig oherwydd bod unigolion wedi ymateb mewn mwy nag un flwyddyn.

**Newidiadau mewn ymddygiad, agweddau a gwasanaethau**

6.6 Rhwng Mawrth 2015 a Mawrth 2020, ar hyd y ddau linyn, derbyniodd 1,237 o ysgolion ledled Cymru wasanaethau addysg greadigol pwrpasol drwy'r cymorth a ddarparwyd gan y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Cafodd y rhaglen felly effaith sylweddol, uniongyrchol ar yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i'r sector addysg gan artistiaid a sefydliadau celfyddydol.

6.7 Sefydlodd y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol fodel gweithio a oedd yn golygu bod artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn ymwneud yn ddwys ac am gyfnod cymharol hir ag ysgolion, athrawon a dysgwyr. Yn yr adroddiadau gwerthuso interim cafwyd enghreifftiau o artistiaid a sefydliadau celfyddydol a oedd yn awyddus i barhau i ymgysylltu ag ysgolion a'r system addysg o ganlyniad i'w profiadau cadarnhaol o'r rhaglen. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at newidiadau diriaethol mewn staffio a strwythurau mewn sefydliadau celfyddydol. Roedd rhai wedi penodi swyddogion addysg ac allgymorth i ddatblygu cysylltiadau â sefydliadau ac awdurdodau addysg lleol er mwyn datblygu cyswllt cryfach â chymunedau lleol, a hyn yn y pen draw wedi gallu cyfrannu at bresenoldeb uwch mewn perfformiadau a sioeau.[39]

6.8 Mae mentrau megis yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r Cynlluniau Cydweithio Creadigol wedi cynnig y modd i artistiaid a sefydliadau celfyddydol gael profiad ymarferol yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu eu gwasanaethau a'u hymgysylltiad ag awdurdodau addysg lleol a sefydliadau. Fel y gwelwyd yn yr arolwg i artistiaid a gyflwynir uchod, mae artistiaid mewn gwell sefyllfa i ddatblygu gwasanaethau newydd neu bwrpasol ar gyfer y sector addysg ac roeddent yn gweithio mwy gydag ysgolion.

6.9 Adroddwyd am rai enghreifftiau o ysgolion yn contractio gwaith dilynol uniongyrchol gydag artistiaid. Nid oes llawer o dystiolaeth i awgrymu, fodd bynnag, y bydd lefel ymgysylltiad uniongyrchol ysgolion ag artistiaid yn gallu disodli'r lefel sylweddol iawn o fuddsoddiad a chefnogaeth a gafodd artistiaid a sefydliadau celfyddydol o'r rhaglen.

[39] Gweler Adroddiad 4: Adran 3.62.

**Cynaliadwyedd**

6.10 Roedd cyfleoedd i artistiaid ymgysylltu ag ysgolion wedi gwella o ganlyniad i'r rhaglen. Fel y trafodwyd, roedd artistiaid a sefydliadau celfyddydol a oedd wedi'u contractio gan y rhaglen gyfan wedi datblygu cysylltiadau â lleoliadau addysgol, gyda llawer wedi addasu eu harferion eu hunain er mwyn gallu apelio a chynnig gwasanaethau a chymorth i ysgolion.

6.11 Teimlai artistiaid yn gyffredinol fod datblygu ap plwg.cymru wedi bod â'r posibilrwydd i drawsnewid trefnu a chynnal cysylltiadau rhwng ysgolion ac athrawon.[40] Nodwyd ganddynt fod yr ap yn cynnig modd o atgyfnerthu eu hymwneud ag ysgolion ar y lefel fwyaf priodol ar gyfer ysgolion a'u hadnoddau a'u cyllidebau.

6.12 Fodd bynnag, mae nifer o heriau cynaliadwyedd. Her i'r dyfodol i'r model a ddatblygwyd gan y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, ac i raddau llai y grant Cydweithio Creadigol, yw'r her yn ymwneud â'i natur o fod yn ddwys ei adnoddau a'r gost. Cryfder yr ymyriad oedd ei ddwyster, ond roedd athrawon yn gyson yn nodi bod y tebygolrwydd o ailadrodd y model yn llawn y tu hwnt i gyfyngiadau cyllidebau ysgolion yn dibynnu ar gyllid pellach neu barhaus.

6.13 Ategwyd hyn gan rai sefydliadau celfyddydol a awgrymodd fod hyfywedd ariannol gwneud hynny yn rhwystr allweddol i gynnal eu gallu i ymgysylltu â'r byd addysg a'i gefnogi. Hyd yn oed i rai o sefydliadau a lleoliadau celfyddydol mwyaf Cymru, os nad yw ymgysylltiad o'r fath yn cynhyrchu refeniw – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – mae'r ymgysylltiad yn annhebygol o gael ei gynnal.[41]

6.14 Mewn cyfweliadau gwerthuso, holodd rhai artistiaid hefyd pa mor gynaliadwy oedd hi iddynt gael eu hariannu i weithio gydag ysgolion. Cododd rhai'r posibilrwydd ei fod wedi creu disgwyliadau afrealistig ymhlith cyd-artistiaid ynghylch faint o waith a fyddai ar gael, gan nad oeddent yn gweld y byddai ysgolion mewn sefyllfa i gynnal ac ariannu'r cysylltiad â'r sefydliad ac artistiaid yn y dyfodol.[42]

6.15 Nododd sefydliadau celfyddydol fod y gyfradd fesul diwrnod (£250) i artistiaid a dalwyd gan y rhaglen yn uwch na chyfartaledd y farchnad lawrydd a chanllawiau'r Cygnor

[40] Gweler Adroddiad 4: Adran 2.41.
[41] Gweler Adroddiad 4: Adran 3.79.
[42] Gweler Adroddiad 4: Adrannau 3.109–3.110.

Theatr Annibynnol. Mynegwyd pryder pellach o ganlyniad y byddai'r rhaglen yn arwain at ddisgwyliadau am ffioedd uwch a chyfradd fesul diwrnod chwyddedig ymhlith artistiaid. Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru, fodd bynnag, nod datganedig i weld yr incwm a enillir gan artistiaid a'u henillion cyfartalog yn cynyddu[43] er mwyn cefnogi gwydnwch y sector.

[43] Gweler Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018 – 2023, t.11.

# 7. Canfyddiadau: Gwerthuso'r Broses

7.1 Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau gwerthuso elfennau proses y rhaglen gan ganolbwyntio ar ddyluniad a gweithrediadau'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Mae'n seiliedig yn bennaf ar y cyfweliadau â staff rheoli a gweithredu yn ogystal â rhanddeiliaid strategol yn ystod y rhaglen. Adroddwyd ar ganfyddiadau gwerthuso'r broses ym mhob cam o'r gwerthusiad er mwyn gallu addasu'r modd y caiff ei gynnal mewn ymateb i argymhellion. Mae'r adran hon yn archwilio gwahanol elfennau'r rhaglen, sut y cawsant eu cynnal a'r hyn y gellir ei ddysgu o'r broses honno.

**Llinyn 1: Ysgolion Creadigol Arweiniol**

7.2 Mae adroddiadau interim y gwerthusiad wedi nodi'n gyson bod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'i gynllunio a'i reoli'n arbennig o dda, gydag ychydig iawn o addasiadau neu newidiadau angen eu gwneud. Mae'r cynllun yn ei hanfod wedi gweithredu yn yr un modd llwyddiannus o'r cychwyn cyntaf. Dywedodd athrawon a staff rheoli fod prosesau ymgeisio, gweithredu a gwerthuso wedi bod yn glir ac yn effeithiol, gyda digon o gymorth ar gael pan fo'i angen.

7.3 Roedd lleoli staff gweithredu Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol rhanbarthol o fewn Consortia Addysg Rhanbarthol wedi codi i fod yn ffactor allweddol wrth gefnogi cyflawni'r cynllun yn llwyddiannus. Roedd gosod y staff hyn yn gorfforol ochr yn ochr â staff y consortiwm wedi meithrin mynediad hawdd at ei gilydd a chyfnewid gwybodaeth yn rhwydd rhwng y ddau bartner. Yn ei dro, roedd hyn wedi sicrhau gwaith partneriaeth da ac wedi cefnogi hyrwyddo'r cynllun a recriwtio ysgolion.

7.4 Risg allweddol a nodwyd wrth gynllunio a datblygu'r rhaglen oedd risg yn ymwneud ag i ba raddau yr oedd angen gwybodaeth arbenigol am ddysgu creadigol ar gyfer y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ac wrth ei gynnal. Gallai rhai o'r heriau wrth ddatblygu prosiect addysgol creadigol yn yr ysgol ac integreiddio dysgu creadigol i addysgu fod wedi bod yn llethol, gan arwain at athrawon yn ymddieithrio. Teimlai athrawon yn gyffredinol fod y prosesau ymgeisio a chynllunio, ac yn enwedig y sesiynau hyfforddi dwys pwrpasol, wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer y cynllun.

7.5 Canmolwyd yn gyson hefyd gynllun yr ymyriad ar lefel ysgol, gan roi gwerth arbennig ar natur bwrpasol a phenodol y prosiectau ac ar y pwyslais ar gydgynhyrchu'r ymyriadau (rhwng yr athrawon, yr artistiaid ac, yn arbennig, y dysgwyr).

7.6 Mae dyluniad y Llinyn Datblygu yn ymgorffori'r cylch gwerthuso mewnol effeithiol a ailadroddwyd. Tynnodd y gwerthusiad sylw at y ffaith mai her allweddol i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol fyddai rhannu'r profiadau a'r arferion dysgu creadigol gydag ysgolion eraill nad oeddent wedi cymryd rhan yn unrhyw un o'r tair rownd wreiddiol. Mewn ymateb, cynlluniwyd a chynhaliwyd ychwanegiad dwy flynedd i'r cynllun, sef y Llinyn Datblygu.

**Llinyn 2: Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan**

*Y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol*

7.7 Roedd y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, i Gyngor Celfyddydau Cymru, yn ddull arloesol o gyflwyno gweithgareddau i gefnogi sector y celfyddydau yn ogystal â phrofiadau celfyddydol mewn ysgolion. Roedd llawer o fanteision i'r cynllun, gan alluogi'r rhaglen i gysylltu â blaenoriaethau lleol a chefnogi'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn fwy effeithiol nag y byddai rhwydwaith cenedlaethol unffurf wedi gallu ei wneud.

7.8 Yn gyntaf, nodwyd yn gyson mai cryfder arbennig oedd y rhyddid a gâi Cydlynwyr y Rhwydweithiau a'u staff i ddylunio a datblygu arlwy eu rhwydwaith. Roedd rhwydweithiau'n gallu alinio â blaenoriaethau'r Consortia Addysg Rhanbarthol a helpu i'w cefnogi. Yn rhanbarth consortiwm GwE, er enghraifft, mabwysiadwyd Hyrwyddwyr y Celfyddydau Rhwydwaith Edau yn benodol gan y consortiwm i ddatblygu addysgu a dysgu celfyddydau creadigol ar draws ei ysgolion. Mae hyn yn dangos i ba raddau y gellid datblygu gwaith y rhwydweithiau i gefnogi a mynd i'r afael â blaenoriaethau addysgol ehangach a strategol yn y rhanbarthau.

7.9 Yn yr un modd, roedd datblygu'r ap brocera (plwg.cymru) yn enghraifft arall o arloesi o'r rhyddid a oedd gan y Rhwydweithiau i ddatblygu eu harlwy eu hunain.

7.10 Cryfder a gydnabyddir yn eang yng nghynllun y Rhwydweithiau oedd defnyddio Hyrwyddwyr y Celfyddydau, nid yn unig i roi cymorth yn uniongyrchol i ysgolion ac

athrawon ond hefyd i adrodd yn ôl ar anghenion ysgolion y rhanbarth o ran y cymorth yr oeddynt ei angen.

7.11 Dywedodd y Rhwydweithiau drwy gydol y gwerthusiad eu bod mewn sefyllfa dda i gyflwyno DPP dysgu creadigol penodol megis yr hyn a ddarparwyd drwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae hyn yn dangos bod ffynonellau posibl i ddysgu creadigol ac arbenigedd addysg gelfyddydol yng Nghymru y gellid efallai galw arnynt yn y dyfodol.[44]

7.12 Yn wyneb y tebygolrwydd y bydd llai o adnoddau wrth symud ymlaen, roedd y syniad o gael un rhwydwaith ledled Cymru gyfan wedi denu staff rheoli a gweithredu'r rhwydweithiau wrth i'r rhaglen ddirwyn i ben. Er ei bod yn bosibl na fyddai gan un rhwydwaith canolog fanteision dull gweithredu pwrpasol yn lleol, efallai mai cydgrynhoi adnoddau a safoni'r hyn a gynigir yw'r opsiwn mwyaf ymarferol i gynnal momentwm wrth gynnal gweithgareddau i gefnogi sector y celfyddydau yn ogystal â phrofiadau celfyddydol mewn ysgolion.

7.13 Er yr holl bethau cadarnhaol ynddynt, fodd bynnag, arweiniodd dyluniad y Rhwydweithiau Rhanbarthol at heriau rheoli, gweithredu a gwerthuso. Trafodwyd yr elfennau hyn yn fanwl yn Adroddiadau 3 a 4. I grynhoi, yn y bôn y cylch gwaith a bennwyd ar gyfer y Rhwydweithiau oedd cyflwyno chwe allbwn, a chanolbwyntio ar weithgareddau yn hytrach na chanlyniadau (gellir dod o hyd i'r rhain Atodiad A). Arweiniodd hyn at ddiffyg eglurder o ran y canlyniadau terfynol i fuddiolwyr. Er enghraifft, rhoddwyd y dasg i'r Rhwydweithiau gynnal DPP i athrawon, ond nid i sicrhau nac i ddangos unrhyw effaith benodol ar athrawon na'u dulliau, sydd wedi cael goblygiadau wrth werthuso'r materion hyn.

7.14 Roedd cynllun fframwaith y rhaglen wedi arwain at gamgyfathrebu yn ogystal â barn wahanol ynghylch natur y berthynas rhwng y Rhwydweithiau ac arweinwyr Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru o'r farn fod y berthynas yn un a oedd yn seiliedig ar eu fframwaith, a oedd yn galluogi rhwydweithiau i weithredu fel y gwelent yn dda, er bod cyfrifoldeb arnynt i ddangos tystiolaeth o lwyddiant a chyflawniad. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod natur y fframwaith – sy'n canolbwyntio ar

[44] Sylwer na chyflwynodd y Rhwydweithiau y DPP penodol hwn yn ystod tymor y rhaglen, gan fod staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystyried ei fod yn dyblygu darpariaeth Llinyn 1.

weithgarwch, yn ogystal â’r galwadau monitro cynyddol benodol a oedd yn canolbwyntio ar gyrraedd targedau allbwn – wedi cyfrannu at y canfyddiad ymhlith staff y Rhwydweithiau bod y berthynas yn seiliedig ar eu cydymffurfiaeth â gofynion Cyngor Celfyddydau Cymru.

7.15 Ymatebai rheolwyr y rhaglen yn gyson i’r materion hyn a cheisio mynd i’r afael nhw, gan ailgynllunio gofynion y gwerthuso a’r monitro, a datblygu cyfres o astudiaethau achos yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen. Roedd eu hymdrechion yn cynnwys ymgysylltu’n ddwysach â staff y Rhwydweithiau i fynd i’r afael ag unrhyw gam-gyfathrebu yn ogystal â safbwyntiau gwahanol ynghylch amcanion terfynol y gweithgareddau, a hynny wedi gwella’r berthynas waith.

7.16 Ymatebodd rheolwyr y rhaglen yn gyson a cheisio mynd i'r afael â'r materion hyn, gan ailgynllunio gofynion gwerthuso a monitro, a datblygu cyfres o astudiaethau achos yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen. Roedd eu hymdrechion yn cynnwys ymgysylltu'n ddyfnach â staff y Rhwydweithiau i fynd i'r afael ag unrhyw gamgyfathrebu yn ogystal â safbwyntiau gwahanol ynghylch amcanion terfynol y gweithgareddau, a oedd wedi gwella'r berthynas waith.

7.17 Wrth ddysgu gwersi o’r profiad, dylai rhaglenni yn y dyfodol sy’n ceisio is-gontractio neu annog partneriaid i gynnal elfennau o raglen (lle bo’n bosibl) roi arweiniad sy’n gysylltiedig â chanlyniadau i bartneriaid, yn ogystal â manylu ar y gweithgareddau a ddymunir. Dylid hefyd ystyried cyfarwyddyd cliriach a mwy penodol mewn perthynas â gwerthuso a chasglu data yn gynharach yn y broses gomisiynu.

7.18 Roedd cyflawni gweithgareddau’r Rhwydweithiau hefyd wedi digwydd ychydig yn arafach na chynlluniau a llinynnau eraill yn ystod y 18 mis cyntaf. Cymerodd hi amser i sefydlu’r rhwydweithiau a dylunio a datblygu’r cynnig. Mewn gwirionedd, felly, teimlai staff y Rhwydweithiau mai dim ond tua dwy neu dair blynedd o ddarpariaeth lawn a gynigwyd gan y rhwydweithiau, a bod hyd yn oed hynny wedi’i gwtogi gan y pandemig a’r cyfnodau clo yn ystod ei flwyddyn olaf.

7.19 Er gwaethaf hyn, mae data monitro, holiaduron athrawon, a chyfweliadau â staff yn awgrymu bod cyflwyno gweithgareddau wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Mabwysiadwyd targedau cliriach erbyn y drydedd flwyddyn i gefnogi monitro a

gwerthuso, ac ni fynegwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â gallu'r rhwydweithiau i gyflawni'r rhain.

7.20 Roedd Cydlynwyr y Rhwydweithiau yn cwrdd yn rheolaidd, gan rannu profiadau a dulliau gweithio, a mynd i'r afael â materion rheoli a godai. Yn y pen draw, datblygodd y cydweithredu hwn yn waith i gadw rhywfaint o weithgarwch y tu hwnt i oes y prosiect trwy rwydwaith etifeddiaeth, sef y Rhwydwaith Cenedlaethol Celfyddydau ac Addysg.

*Profi'r Celfyddydau*

7.21 Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a gyfwelwyd drwy gydol y cyfnod gwerthuso unwaith eto o'r farn bod elfen Profi'r Celfyddydau y rhaglen wedi'i dylunio'n effeithiol. Fel rhan o hyn, barnwyd bod Cronfa Ewch i Weld ar gyfer grantiau bach yn rhwydd cael ati yn ogystal â bod yn hawdd i'w gweinyddu a'i gweithredu.

7.22 Datblygodd yr elfen Cydweithio Creadigol rywfaint yn ystod oes y rhaglen. Nid oedd disgwyliadau cychwynnol ynghylch y mathau o brosiectau i'w cefnogi wedi'u hadlewyrchu yn y ceisiadau a dderbyniwyd. Soniodd staff rheoli am dderbyn ceisiadau gan sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn ceisio parhau â darpariaeth neu brosiectau presennol yn hytrach na, fel y dymunid, cynnal prosiectau arloesol i geisio cefnogi dysgu creadigol a datblygu athrawon. Mae'r addasiadau a wnaed ar ôl y ddwy flynedd gyntaf yn adlewyrchu sut y llwyddodd y tîm rheoli i addasu mewn ymateb. Cynigiwyd grantiau 'blasu' llai, tra rhoddwyd gwybodaeth gliriach am amcanion dymunol grant llawn Cydweithio Creadigol. Arweiniodd hyn at geisiadau newydd a oedd yn agosach at nod a chynllun gwreiddiol y rhaglen.

7.23 Roedd ysgolion a oedd wedi cwblhau eu prosiectau Ysgolion Creadigol Arweiniol hefyd yn troi at y grant Cydweithio Creadigol fel modd o ehangu eu hymwneud ag artistiaid. Roedd hyn yn cynnig modd o gynnal a pharhau'r dulliau a ddatblygwyd drwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, er mai dim ond yn ystod oes grantiau Cydweithio Creadigol. Awgryma hyn fod cynaliadwyedd y dull yn dibynnu ar argaeledd cyllid allanol i rai ysgolion.

*Y Parth Dysgu Creadigol*

7.24 Trafodwyd dyluniad y Parth Dysgu Creadigol yn fanwl yn Adroddiad 1 (gweler hefyd Atodiad A). Un o gryfderau allweddol y cynllun a nodwyd yn gyson gan ddefnyddwyr a

staff rheoli oedd ei fod yn adnodd a oedd yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyswllt amlwg â Llywodraeth Cymru yn cefnogi ei henw da fel ffynhonnell o ddeunyddiau achrededig a chymeradwy. At hynny, roedd y Parth Dysgu Creadigol yn gallu manteisio ar ymgysylltu ehangach â llwyfan Hwb ar ôl rhyddhau dogfennau dros dro yn ymwneud â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, fel y dangoswyd gan gynnydd amlwg iawn mewn defnydd yn ystod yr un cyfnod.[45]

7.25 Er bod Hwb yn blatfform ar-lein cymharol syml ar gyfer lanlwytho a chael mynediad at adnoddau i gefnogi addysgu, adroddwyd am anawsterau technegol yn ystod cyfnod cynnar y Parth Dysgu Creadigol. Roedd staff perthnasol Llywodraeth Cymru yn amau maint yr anawsterau technegol, fodd bynnag, a oedd yn awgrymu y gallai diffygion sgiliau TG ymhlith artistiaid a rhai athrawon fod wedi cyfrannu at hyn.

7.26 Os mai'r olaf sy'n wir, yna mae'n bosibl bod y rhaglen wedi datgelu gwendid sgiliau penodol yn y sectorau celfyddydol ac addysgol yn ogystal â thybiaeth y byddai artistiaid ac athrawon yn gallu ymgysylltu â llwyfan ar-lein anghyfarwydd. Mae'n bosibl bod y Parth Dysgu Creadigol wedi dioddef niwed i'w enw da yn sgil yr heriau technegol hyn ar gamau cynharach yn y rhaglen. Ymatebodd staff Llywodraeth Cymru drwy gynnal hyfforddiant i staff y Rhwydweithiau a'r rheiny wedi cael y dasg o ennyn diddordeb athrawon ac artistiaid i ddefnyddio'r Parth Dysgu Creadigol.

7.27 Drwy gydol oes y rhaglen bu'n rhaid i'r Parth Dysgu Creadigol ymdopi â dwy her allweddol arall. Yn gyntaf, fe wnaeth y gwefannau, llwyfannau ac apiau a ddatblygwyd gan y Rhwydweithiau gynyddu nifer yr opsiynau ac o bosibl wanhau cynulleidfa'r Parth a nifer ei defnyddwyr. Yr anhawster mwyaf, fodd bynnag, oedd bod athrawon wedi parhau i ddefnyddio llwyfannau sector preifat mwy poblogaidd fel Facebook a Google Scholar ar yr un pryd. Datgelodd grwpiau ffocws gydag athrawon yn ogystal â chyfweliadau gyda Hyrwyddwyr y Celfyddydau eu bod yn chwilio am fwy nag adnoddau cymeradwy gan y Parth Dysgu Creadigol a'u bod yn chwilio am ofod ar-lein i rwydweithio, rhyngweithio, rhannu syniadau a rhannu eu hadnoddau eu hunain.[46] Nid oedd y PDC wedi'i gynllunio i weithredu fel rhwydwaith cymdeithasol.

[45] Gweler Adroddiad 4: Adran 4.11.
[46] Gweler Adroddiad 3: Adrannau 6.3 a 6.9.

## 8. Casgliad ac Argymhellion

8.1 Yr adroddiad hwn yw'r dadansoddiad crynodol ar y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (Mawrth 2015 hyd at fis Mawrth 2020) ac mae wedi defnyddio canfyddiadau'r pum cam gwerthuso blynyddol i drafod canlyniadau ac effaith y rhaglen yn ogystal â'r prif ganfyddiadau a ddysgwyd o'i chynnal.

8.2 Bydd gwerthusiad ychwanegol ac ar wahân yn ystyried effaith gweithgareddau cyfnod etifeddiaeth y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, a hwnnw wedi'i gynnal yn y ddwy flynedd ar ôl mis Ebrill 2020.

8.3 Amcan cyffredinol y rhaglen oedd gwella llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith anfantais ac/neu amddifadedd. Nodwyd tri is-amcan hefyd, sef:

1) Gwella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd
2) Cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol mewn ysgolion
3) Cefnogi athrawon ac ymarferwyr celf i ddatblygu eu sgiliau.

8.4 Wrth fynd i'r afael â'r amcanion hyn, mae'r gwerthusiad wedi canolbwyntio ar effeithiau yn gysylltiedig ag ymddygiad ar grwpiau buddiolwyr allweddol mewn perthynas â dangosyddion penodol a nodwyd mewn modelau newid ymddygiad yn theori newid y rhaglen.[47]

8.5 Mae tystiolaeth sylweddol ac ystyrlon i ddod i'r casgliad bod amcanion y rhaglen wedi'u cyflawni. Mae'r rhaglen wedi bod yn brofiad cadarnhaol i bawb a oedd yn rhan ac wedi cael effaith ystyrlon ledled Cymru. Mae'r strwythur dau linyn, gyda'i amrywiol elfennau yn ategu'i gilydd, wedi galluogi ac annog ymgysylltu ar wahanol lefelau ac wedi sicrhau newid sylweddol i athrawon, dysgwyr, artistiaid, a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol.

[47] Gweler Adroddiad 1: Adrannau 3.1 i 3.2.

*Effaith ar athrawon ac ysgolion*

8.6 Ymgysylltwyd â miloedd o athrawon a channoedd o ysgolion drwy elfennau amrywiol y rhaglen ac mae tystiolaeth gref o ymwybyddiaeth gynyddol o ddysgu creadigol yn ogystal ag athrawon ac arweinwyr ysgol yn rhoi mwy o werth ar ddysgu creadigol.

8.7 Mae'r prif elfennau hyfforddi, naill ai fel elfen o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol neu drwy'r datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a gynhaliwyd drwy'r Rhwydweithiau, yn dangos i ba raddau yr oedd y ffocws ar wybodaeth a galluoedd athrawon. Roedd yr adborth ar yr hyfforddiant yn gyson gadarnhaol. Yn ogystal, roedd y Consortia Addysg Rhanbarthol yn gweld y cynnig yn fodd i gefnogi amcanion addysg a hyfforddiant ehangach.

8.8 Yn dilyn ymyriad penodol y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol awgryma'r data fod athrawon wedi newid y ffordd yr oeddent yn addysgu drwy gynyddu eu defnydd o ddulliau creadigol. Defnyddient ddulliau addysgu newydd a chreadigol, yn teimlo'n fwy hyderus wrth wneud hynny, ac, er i raddau llai, yn teimlo ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar staff a dysgwyr. Roedd dwyster a hyd yr ymyriad yn bwysig i sicrhau'r newidiadau hyn.

8.9 Roedd adborth ar hyfforddiant y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a gweithgareddau rhwydweithio yn awgrymu'n gyson bod athrawon yn bwriadu rhoi eu dysgu ar waith yn yr ystafell ddosbarth a newid eu haddysgu o ganlyniad i'w cyfranogiad.

8.10 Roedd effaith hyfforddiant a DPP ar berfformiad athrawon yn fwy heriol i'w dirnad ac yn dibynnu ar hunanwerthusiad gan athrawon neu fesuriadau procsi megis cyrhaeddiad dysgwyr. Serch hynny, awgryma'r dystiolaeth hon fod y dulliau newydd yn wir yn gwella ansawdd yr addysgu. Os gellir cynnal y newidiadau cadarnhaol hyn a'u hymestyn i ragor o athrawon, efallai y bydd y rhaglen a'r gwariant a'r adnoddau cysylltiedig yn parhau i ychwanegu gwerth at addysg yng Nghymru yn y dyfodol.

8.11 Mae rôl arweinyddiaeth ac amgylchedd yr ysgol yn ffactor allweddol wrth hwyluso effaith barhaus y rhaglen. Er y gall ysgolion alluogi, gallant hefyd gyflwyno rhwystrau, gan gyfyngu ar athrawon rhag addysgu'n greadigol neu barhau i ddatblygu eu hymarfer. Dywedodd athrawon mai diffyg amser yn ogystal ag amserlennu tynn yn yr ysgol oedd y prif rwystr i'w hymdrechion i ddefnyddio a chynnal eu defnydd o'r arferion

newydd, ynghyd â'r angen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau ysgol neu gwricwlaidd ehangach.

8.12 Roedd rhanddeiliaid wedi sôn am y ffaith bod cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru wedi cefnogi ac annog athrawon i archwilio a datblygu dysgu creadigol. Nid yn unig y mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn Faes Dysgu a Phrofiad penodol yn y cwricwlwm, mae'r dulliau cydweithredol a thrawsgwricwlaidd a ddatblygwyd trwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol hefyd yn cyd-fynd â phwyslais y cwricwlwm ar addysgu thematig ac addysgu sy'n seiliedig ar brosiectau.

8.13 Mae dwy ffordd y mae arferion dysgu creadigol wedi'u rhannu ac y gellir parhau i'w rhannu – yn gyntaf, yn fewnol i athrawon eraill o fewn yr un ysgol, ac, yn ail, yn allanol i ysgolion eraill. Mae athrawon a oedd wedi bod yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi rhannu dysgu ac ymarfer da yn eu hysgolion, er yn bennaf mewn modd anffurfiol. Yna estynnodd y Llinyn Datblygu y cyrhaeddiad yn ffurfiol i rannu arferion a gwybodaeth gydag ysgolion nad oeddent wedi bod yn rhan o'r cynllun o'r blaen.

8.14 Er mwyn parhau i estyn y buddion i bob athro ac ysgol a chadw'r wybodaeth ac ymarfer dysgu creadigol i'r hirdymor bydd angen nodi a harneisio ysgogiadau y tu allan i'r rhaglen wreiddiol.

8.15 **Argymhelliad 1:** Dylid cydnabod y risg mai lleihau fydd y wybodaeth a'r arfer o ddysgu creadigol sydd wedi'i wreiddio mewn athrawon, ysgolion ac artistiaid yn ystod y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Ar yr un pryd, mae potensial i harneisio'r wybodaeth newydd hon i sefydlu a phrif ffrydio ei hymarfer a'i heffeithiau. Er mwyn gwneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ystyried sefydlu perchnogaeth, cyfrifoldeb a mecanwaith cyflawni ar gyfer dyfodol dysgu creadigol sy'n fwy parhaol na'r grŵp llywio sydd wedi bodoli yn ystod y rhaglen.

8.16 Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff canolog ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru, a thrwy'r rhaglen hon mae wedi meithrin arbenigedd sylweddol i alluogi dysgu creadigol a phrofiadau celfyddydol i ddysgwyr mewn ysgolion. Mae risg ar ddiwedd y rhaglen hon y gallai newid mewn blaenoriaethau a phwysau ddargyfeirio sylw'r corff i rywle arall, felly rhaid ei gefnogi i gynnal y maes gwaith hwn. Os gall Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod gan artistiaid a sefydliadau celfyddydol wybodaeth, cysylltiadau a phrofiad rhagorol o weithio mewn

ysgolion ac yn gallu alinio eu gwaith â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, yna bydd yn fwyfwy posibl y bydd arweinwyr ysgolion yn dewis ymgysylltu ag artistiaid i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol.

8.17 Mae'r gwerthusiad wedi dangos bod mynediad artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ysgolion yn hanfodol i wneud profiadau celfyddydol yn hygyrch i bob plentyn, creu adegau cofiadwy, ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid Cymreig. Mae'n bwysig, felly, bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn gallu cynnal a pharhau i feithrin ei berthynas ag ysgolion a chyrff addysgol.

8.18 **Argymhelliad 2:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, gyda'i arbenigedd, ei adnoddau, a'i rôl ganolog yn hyrwyddo a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru, yn allweddol i alluogi dysgu creadigol a phrofiadau celfyddydol i ddysgwyr mewn ysgolion. Dylid ei gefnogi i gynnal y maes gwaith hwn fel rhan o'i gylch gwaith craidd, gan sicrhau bod gan artistiaid a sefydliadau celfyddydol wybodaeth, cysylltiadau a phrofiad rhagorol yn gweithio mewn ysgolion ac y gallant alinio eu gwaith â'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

8.19 **Argymhelliad 3:** Dylid galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i gynnal a pharhau i feithrin ei gysylltiadau â Chonsortia Addysg Rhanbarthol, adrannau addysg awdurdodau lleol, ac ysgolion fel modd o sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at brofiadau celfyddydol o ansawdd uchel drwy eu hysgolion.

8.20 Bydd angen i Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sefydlu strwythurau ac ymgysylltu â phartneriaid i barhau i ymgorffori dysgu creadigol yng Nghymru. Felly, mae rôl bwysig barhaus i rwydwaith i ddod ag athrawon ac artistiaid ynghyd, meithrin cysylltiadau ac iaith gyffredin yn ymwneud â dysgu creadigol a phrofiadau celfyddydol, chwalu rhwystrau, rhannu enghreifftiau o arfer da, ac annog cydweithio mewn ysgolion.

8.21 Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol Celfyddydau ac Addysg yn ceisio gwneud hyn yn union, sef bod y rhwydwaith hwn yn etifeddiaeth i'r pedwar Rhwydwaith blaenorol. Mae'n ysgogi ymgysylltiad ysgolion drwy ddefnyddio iaith berthnasol iawn y Cwricwlwm newydd i Gymru, e.e. "dysgu drwy'r celfyddydau mynegiannol". Fel platfform ar-lein sy'n cysylltu ysgolion ac artistiaid â chyfleoedd dysgu creadigol a chelfyddydol, mae plwg.cymru yn dal yn weithredol ac yn cael ei reoli gan

Ymddiriedolaeth Actifyddion Artistig gyda chyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

8.22 Mae ystadegau defnyddio'r Parth Dysgu Creadigol yn awgrymu mai ei swyddogaeth fwyaf defnyddiol ar gyfer athrawon yw fel storfa neu gadwrfa ar gyfer astudiaethau achos ac unrhyw enghreifftiau ymarferol eraill o ddysgu creadigol mewn ysgolion. Mae adborth yn dangos y gallai cysylltiadau clir â'r Cwricwlwm newydd i Gymru wneud yr adnodd yn fwy perthnasol.

8.23 **Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod digon o gefnogaeth a chydgysylltu rhwng y gwahanol gyrff a llwyfannau sy'n hyrwyddo ac yn cynnig profiadau dysgu creadigol a chelfyddydol mewn ysgolion, e.e. Rhwydwaith Cenedlaethol Celfyddydau ac Addysg a plwg.cymru.

8.24 **Argymhelliad 5:** Dylid newid ffocws y Parth Dysgu Creadigol i fod yn gadwrfa ar gyfer astudiaethau achos ac unrhyw enghreifftiau ymarferol eraill o ddysgu creadigol mewn ysgolion, gyda chysylltiadau clir â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Ar y lleiaf, dylid ailystyried pwrpas a swyddogaeth y Parth Dysgu Creadigol i asesu a yw'n parhau'n berthnasol yn ei fformat presennol.

8.25 Er mwyn i ddysgu creadigol barhau i fod yn berthnasol, rhaid i hyfforddiant i athrawon ac artistiaid barhau i fod ar gael ac yn berthnasol. Yn ystod oes y rhaglen, cynhaliwyd hyfforddiant i athrawon ac artistiaid wedi'i dargedu at addysgeg dysgu creadigol drwy Linyn 1 Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

8.26 **Argymhelliad 6:** Dylai gweithgarwch Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru chwarae rhan wrth gefnogi taith dysgu creadigol Cymru, gan gynnwys gwaith mewn Addysg Gychwynnol Athrawon. Mae angen cymryd camau i ymgysylltu â phartneriaid Addysg Gychwynnol Athrawon a sefydlu eu rôl a'u cylch gorchwyl mewn perthynas â dysgu creadigol.

*Effaith ar ddysgwyr*

8.27 Mae'r niferoedd a gymerodd ran yn y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi bod yn sylweddol. Mae grwpiau o ddisgyblion mewn dros draean o ysgolion Cymru wedi bod cael profiad o ymyriad dwys, gan weithio gydag artistiaid ar brosiectau creadigol ac artistig pwrpasol. Ynghyd â mwy na 47,000 o ddysgwyr sydd

wedi cael profiad o berfformiadau a digwyddiadau artistig trwy'r grant Ewch i Weld, mae'r rhaglen yn ei chyfanrwydd wedi rhoi cyfle a galluogi nifer sylweddol o ddysgwyr i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a chreadigrwydd fel cyfrwng dysgu.

8.28 Drwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn enwedig, mae'r rhaglen wedi datblygu sgiliau creadigol a galluoedd dysgwyr. Mae athrawon wedi gwneud sylwadau'n gyson ar ddysgwyr yn arddangos nodweddion creadigol ac yn gwneud defnydd o'u sgiliau. Yn ogystal, mae'r cynllun wedi arwain at argraff fwy cadarnhaol o'u hysgol ymhlith dysgwyr a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy cysylltiedig.

8.29 Awgryma'r llenyddiaeth y gall hyder ac ymgysylltiad â'r ymyriad creadigol orlifo a throsi'n hyder ac ymgysylltiad ag addysgu a dysgu yn gyffredinol, gan arwain yn y pen draw at berfformiad a chanlyniadau gwell.[48] Yn wir, o blith yr athrawon a gynhaliodd brofion cyn ac ar ôl yr ymyriad, neu'r rhai a dynnodd ar fesurau cyrhaeddiad a gymeradwywyd gan y proffesiwn neu'r diwydiant, megis Incerts, teimlai 94 y cant ac 87 y cant, yn y drefn honno, fod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi sicrhau effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad dysgwyr, er bod cyfyngiadau i'r data hyn.

8.30 Erys cwestiynau pwysig, megis i ba raddau y cedwir yr effaith ac a yw effaith dysgu creadigol yn gorbwyso neu'n fwy arwyddocaol nag effaith dulliau mwy confensiynol o fynd i'r afael â chyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, o'i gyfuno â'r manteision ehangach i hyder ac ymgysylltiad, mae'r dull, ar y lleiaf, yn haeddu ystyriaeth bellach ac, os yw'n bosibl, dadansoddiad mwy rheoledig. I wneud hyn, mae'n hollbwysig bod arferion dysgu creadigol yn parhau i gael eu mabwysiadu a'u cynnal mewn ysgolion a bod dysgu creadigol yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda.

8.31 **Argymhelliad 7:** Dylid hyrwyddo gwybodaeth am yr effaith y mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'i chael ar gyrhaeddiad i arweinwyr ysgol ac athrawon i annog defnyddio a datblygu dysgu creadigol. Dylid parhau i ddefnyddio iaith dysgu creadigol yng nghohebiaeth y cwricwlwm yn ogystal â rhaglenni'r dyfodol er mwyn i'r dull barhau i fod yn berthnasol, a bod athrawon yn dewis parhau â'r maes hwn o ddysgu proffesiynol.

---

[48] Gweler Adroddiad 1 Adolygiad Llenyddiaeth yn Adrannau 4.6–4.40

*Effaith ar artistiaid a sefydliadau celfyddydol*

8.32 Cefnogwyd cannoedd o artistiaid gan y rhaglen, yn enwedig cynlluniau Ysgolion Creadigol Arweiniol a Chydweithio Creadigol, i gael profiad o ddull gwahanol o addysgu a dysgu a datblygu eu sgiliau a'u gwasanaethau. Yn ogystal, mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi sefydlu model i ysgolion ac artistiaid gydweithio â'i gilydd, gyda llawer o artistiaid am barhau â'u hymgysylltiad ar ôl y rhaglen.

8.33 O ganlyniad, mae'r rhaglen wedi cyfrannu at incwm cannoedd o artistiaid a sefydliadau. Ymhellach, mae'n annhebygol bod cynifer o artistiaid a sefydliadau wedi gweithio gyda'r system addysg i'r fath raddau o'r blaen. Buddsoddodd y rhaglen yn sylweddol yn y sector, nid yn unig gyda'i chwistrelliad o arian ond hefyd drwy ddarparu profiad a gwybodaeth werthfawr.

8.34 Mae'r model ymgysylltu a sefydlwyd gan y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, ac, i raddau llai, y cynllun grant Cydweithio Creadigol, fodd bynnag, yn dibynnu ar ddigon o gyllid i gefnogi ymgysylltiad dwys ac, yn ddelfrydol, am gyfnod hir rhwng ysgolion ac artistiaid. Er gwaethaf y manteision i'w hathrawon a'u dysgwyr, mae ysgolion wedi dweud yn glir nad oes ganddynt y cyllidebau ar gyfer buddsoddiad o'r fath. Byddai hyd yn oed y cludiant a'r tocynnau a ariannwyd drwy grantiau llai Ewch i Weld yn anodd i ysgolion eu hariannu eu hunain. Felly, mae angen i gyllid ar gyfer dysgu creadigol a phrofiadau celfyddydol ar raddfa fawr a bach barhau ar ryw ffurf neu'i gilydd.

8.35 **Argymhelliad 8:** Dylid datblygu model ariannu hirdymor i ysgolion ar gyfer dysgu creadigol a phrofiadau celfyddydol ill dau. Dylai'r cwricwlwm gefnogi cronfa o'r fath er mwyn rhoi hyder i ysgolion fod Llywodraeth Cymru ac Estyn yn cefnogi ac yn annog y celfyddydau a dysgu creadigol, yn enwedig cydweithio ag artistiaid allanol. Bydd cronfa sefydledig hirdymor yn galluogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol i fuddsoddi a chynnig gwasanaethau a phrofiadau o ansawdd uchel wedi'u teilwra, gan gefnogi'r diwydiant i dyfu o ran hyder, statws ac arloesedd.

*Dyluniad y rhaglen a'i gweithredu*

8.36 Un o ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad yw bod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'i ddylunio'n dda iawn. Cryfderau arbennig oedd yr hyfforddiant pwrpasol i athrawon ac artistiaid yn ogystal â lleoli staff gweithredu ar y safle ochr yn

ochr â Chonsortia Addysg Rhanbarthol. Cafodd rôl Asiantau Creadigol ei chanmol yn eang hefyd, yn enwedig wrth frocera cysylltiadau rhwng artistiaid ac athrawon a galluogi cydgynhyrchu effeithiol. Dyluniwyd y Llinyn Datblygu yn ddiweddarach yn y rhaglen er mwyn rhannu buddion y cynllun ag ysgolion yn ehangach, ac mae'n dangos bod cylch gwerthuso mewnol effeithiol ar waith ac y cafwyd ymdrech i fynd i'r afael â heriau allweddol cynaliadwyedd ac etifeddiaeth.

8.37 Cynlluniwyd y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol i gynnal gweithgareddau i gefnogi amcanion ehangach y rhaglen. Gallent ymateb i wahaniaethau rhanbarthol a helpu i gefnogi blaenoriaethau'r Consortia Addysg Rhanbarthol perthnasol, gan ychwanegu gwerth at y system addysg statudol ehangach ochr yn ochr â'u cenhadaeth graidd. Roedd athrawon a rhanddeiliaid wedi nodi'n gyson bod cryn werth i'w gweithgareddau craidd, yn enwedig darparu cefnogaeth DPP a Hyrwyddwyr y Celfyddydau, ac roedd pa mor berthnasol oeddent wedi cynyddu yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Fodd bynnag, cyfrannodd rhai penderfyniadau dylunio ar y dechrau at heriau diweddarach a chamgyfathrebu. Gwers allweddol o'r profiad yw'r angen i fanylu ar ddisgwyliadau o ran canlyniadau a gwerthuso wrth sefydlu neu is-gontractio partneriaid cyflenwi.

8.38 **Argymhelliad 9:** Wrth sefydlu ac is-gontractio partneriaid cyflenwi, yn yr achos hwn y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol (RAEN), mae'n bwysig sicrhau bod y cylch gwaith a nodir a'r canllawiau cysylltiedig yn cynnwys disgwyliadau sy'n ymwneud â chanlyniadau, yn ogystal â manylion am y mathau o weithgareddau a ddymunir. Dylid darparu cyfarwyddyd clir ac eglur mewn perthynas â gwerthuso a chasglu data o'r cychwyn cyntaf hefyd.

8.39 Canfuwyd hefyd fod Cronfa Profi'r Celfyddydau wedi'i dylunio'n effeithiol, ac nad oedd ond angen addasiadau bychain yn unig a mynegi disgwyliadau yn gliriach er mwyn sicrhau bod y ceisiadau am grant Cydweithio Creadigol yn adlewyrchu'r cwmpas a fwriadwyd. Er bod y grant Ewch i Weld yn llai ei raddfa, ystyriwyd ei fod yn rhwydd ac yn syml cael gafael arno.

*Y Dyfodol*

8.40 Dyma'r weledigaeth a nodwyd yn 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru (2015–2020)':

*Dylai'r celfyddydau a dulliau creadigol o ddysgu ac addysgu fod â rhan bwysig yn ein holl ysgolion, lle bo cydweithio a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol a hefyd ag ymarferwyr creadigol yn nodwedd gyffredin, a lle bo arfer da wedi'i rannu ac yn hygyrch i bawb*.[49]

8.41 Yn sicr, mae'r rhaglen wedi gwneud y gwaith sylfaen gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i wneud y weledigaeth hon yn bosibilrwydd, ond os yw hon am barhau'n weledigaeth, sut y caiff ei gwireddu i'r dyfodol? Mae hwn yn gwestiwn i grŵp llywio'r rhaglen a'u sefydliadau priodol weithio drwyddo. Mae'r adroddiad hwn wedi tynnu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad i gloi gyda rhai argymhellion pendant sy'n anelu at adeiladu ar y sylfaen bresennol. Fodd bynnag, mae angen cynllun gweithredu newydd, gan y gellid colli'n gyflym y cysylltiadau dysgu creadigol yn ogystal â mynediad at y celfyddydau, a gallai blaenoriaethau newydd a mwy dybryd ar gyfer ysgolion ac addysg yng Nghymru gymryd eu lle.

**Argymhelliad 10:** Os yw'r ymrwymiad i'r weledigaeth ar gyfer Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn parhau yng Nghymru, yna mae angen cynllun gweithredu newydd i adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd gan y rhaglen. Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth, ymgynghori ac adnoddau yn ogystal ag ystyried yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn.

[49] Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru (2015–2020)

## Cyfeiriadau

Spencer, E., Lucas, B. a Claxton, G. (2012) Progression in Creativity: Developing new forms of assessment. Newcastle: CCE. Ar gael yn: Progression in Creativity: Developing new forms of assessment (aethpwyd iddo 13/06/23).

Smith, D. (2013) Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru (aethpwyd iddo 13/06/23).

Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru (2014) Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru. Ar gael yn: Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu ar gyfer Cymru (aethpwyd iddo 13/06/23).

# Atodiadau

## Atodiad A: Gwybodaeth Gefndir am y Rhaglen a'r Cynllun

### Llinyn 1: Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

*Y prif gynllun*

Roedd y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd. At hynny, ceisiai ddatblygu sgiliau creadigol pobl ifanc a datblygu addysgeg ymhlith athrawon. Yn ymarferol, cafodd ei gynnal trwy ymyriad dwys â disgyblion ac athrawon, a hwnnw wedi'i gydgynhyrchu a'i gynnal ar y cyd ag 'Asiantau Creadigol' ac 'Ymarferwyr Creadigol.'

Cynhaliwyd y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn tair rownd, gydag ysgolion a gynorthwyir yn cymryd rhan am ddwy flynedd:

- Rownd 1: blynyddoedd academaidd 2015/16 a 2016/17
- Rownd 2: blynyddoedd academaidd 2016/17 a 2017/18
- Rownd 3: blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19.

*Llinyn Datblygu*

Wedi'i gyflwyno yn 2018/19, cynigai'r Llinyn Datblygu gyllid pellach i nifer llai o ysgolion a oedd wedi elwa o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol er mwyn iddynt gefnogi a gweithio gydag ysgolion newydd i ddatblygu a chynnal prosiect. Y nod oedd cefnogi rhannu arferion, addysgeg a phrofiadau gydag athrawon ac ysgolion nad oeddent wedi elwa o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol gwreiddiol. Roedd yn gyfle i dreialu dulliau newydd o gyflwyno'r cynllun yn unol â'r dulliau datblygu proffesiynol sy'n cael eu datblygu ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd yr ysgolion newydd wedi mynd i'r afael â datblygiad proffesiynol a oedd yn ymgorffori'r un egwyddorion ac arferion â rhai'r ysgolion a oedd eisoes wedi elwa o'r cynllun. Yn ogystal, roedd ysgolion y Llinyn Datblygu wedi cael profiad o brosiectau dysgu creadigol yn eu hysgolion. Er bod y Llinyn Datblygu yn fyrrach o ran hyd na'r prif gynllun, roedd cyfranogwyr yn dal i gael eu hystyried yn fuddiolwyr y cynllun trwy'r rhannu gwybodaeth strwythuredig yn ogystal â datblygu sgiliau gan ddefnyddio model cyfoedion-i-gyfoedion.

**Llinyn 2: Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan**

Roedd Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan yn cynnwys ystod o wahanol weithgareddau a gynlluniwyd i gynyddu a gwella cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid, a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol/treftadaeth gydweithio â'i gilydd, fel y cyflwynir isod.

*Y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol (RAEN)*

Sefydlwyd pedwar rhwydwaith oedd â'r cylch gwaith a ganlyn:

1. Casglu a lledaenu arferion gorau.
2. Sefydlu a chydlynu cyfleoedd i rwydweithio yn y celfyddydau a'r dysgu creadigol (wyneb yn wyneb ac yn ddigidol) i athrawon, artistiaid a sefydliadau celfyddydol / diwylliannol.
3. Cynnig gwasanaeth 'broceru' rhwng ysgolion, artistiaid a sefydliadau celfyddydol / diwylliannol.
4. Rhoi cyfleoedd hyfforddi i ymarferwyr celf i wella a theilwra eu darpariaeth i gyfateb ag anghenion a blaenoriaethau ysgolion.
5. Rhoi cyfleoedd i athrawon ac artistiaid ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau.
6. Rheoli a chydlynu rhaglen 'Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol' (a adroddwyd yn wreiddiol i fod yn elfen ar wahân yng Nghynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan ond daethant o dan gylch gwaith y Rhwydweithiau ar ôl iddynt gael eu sefydlu).

Cafodd y Rhwydweithiau eu lansio hefyd fel model ar gyfer rheoli amcanion y rhaglen ehangach a sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni. Sefydlwyd pedwar rhwydwaith i adlewyrchu daearyddiaeth y Consortia Addysg Rhanbarthol. Rheolwyd pob rhwydwaith a'i weithgareddau gan Gydlynydd Rhwydwaith Rhanbarthol ac aelodau staff ychwanegol. Amrywiai'r Rhwydweithiau o ran eu cyfansoddiad a'u natur. Dyma'r Rhwydweithiau:

- NAWR, y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- Edau, y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ar gyfer y Gogledd, dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint.
- A2: Connect, y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ar gyfer Canol De Cymru, dan arweiniad Ymddiriedolaeth Actifyddion Artistig ar ran Arts Connect.

- Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg: De Ddwyrain Cymru, Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ar gyfer rhanbarth y De Ddwyrain, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Caerffili.

Roedd hyn yn fwriadol yn ymyriad llawer ehangach, ac yn targedu llai, na'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan fod y cynllun hwnnw wedi'i lunio i weithio'n ddwys gydag ysgolion unigol. Roedd ffocws y rhwydweithiau ar greu 'cyfleoedd' i gefnogi athrawon i ddatblygu eu dulliau addysgu. Roedd staff rheoli a gweithredu yn aml yn diffinio'r rhwydweithiau fel rhai a oedd yn ymwneud ag addysgu 'yn' y celfyddydau.

*Cronfa Profi'r Celfyddydau*

Cynlluniwyd Cronfa Profi'r Celfyddydau i annog ysgolion i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc fynd gam ymhellach yn eu harchwiliad o brofiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol. Roedd yn cynnwys dwy elfen: 'Ewch i Weld' a 'Chydweithio Creadigol'. Lansiwyd y ddwy elfen ym mis Mawrth 2016.

Roedd Ewch i Weld yn rhoi cyfle i ysgolion wneud cais am grantiau bychain, unwaith yn unig o hyd at £1,000 i dalu am ymweliadau unigol â digwyddiadau diwylliannol a chelfyddydol o safon uchel mewn safleoedd ledled Cymru. Gallai'r profiadau gynnwys ymweliadau â pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweliadau er mwyn cael profiad o bobl broffesiynol yn y celfyddydau'n datblygu a chreu eu gwaith.

Bwriad rhaglen Cydweithio Creadigol oedd dod ag ysgolion a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol at ei gilydd i weithio ar brosiectau arloesol. Roedd grantiau rhwng £5,000 a £25,000 ar gael i ariannu hyd at 90% o gost prosiect. Ymhellach, cyflwynodd staff rheoli rhaglenni Cyngor Celfyddydau Cymru grant 'blasu' (sef grant rhwng £5,000 a £7,500) i brosiectau llai eu maint oedd ag elfen gref o arbrofi ac/neu gymryd risgiau creadigol.

*Parth Dysgu Creadigol*

Lansiwyd y Parth Dysgu Creadigol (PDC) ym mis Mawrth 2016 ac mae'n blatfform rhannu gwybodaeth ar-lein sydd wedi'i gynllunio i fod yn ffynhonnell gwybodaeth ac yn ganolbwynt cydweithio ar gyfer athrawon, dysgwyr, a sefydliadau ac ymarferwyr celfyddydol / diwylliannol.

Nod y PDC oedd cyflawni argymhelliad o adroddiad 2013 yr Athro Dai Smith ar y celfyddydau mewn addysg, ‘Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru’, sef yr argymhelliad:

“Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod Porth Addysg Creadigol yn cael ei ddatblygu, fel elfen ychwanegol, integredig o ‘Hwb’, sef Llwyfan Dysgu Digidol Cymru gyfan.”

## Atodiad B: Y Rhaglen mewn Rhifau

*Ffynhonnell:* *[Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru, Adroddiad Blynyddol 2019/2020]*



### Pob rhanbarth

**658** ysgol wedi cymeryd ran yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

**815** ysgol wedi manteisio ar gynigion Dysgu Proffesiynol a Hyrwyddwyr y Celfyddydau
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**

**3091** ymgysylltiad gan athrawon â chynigion dysgu proffesiynol
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**

**867** grant Ewch i Weld
**(40 wedi'u tynnu'n ôl oherwydd y coronafeirws)**



### Gogledd Cymru

**157** ysgol wedi cymeryd ran yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

**144** ysgol wedi manteisio ar gynigion Dysgu Proffesiynol a Hyrwyddwyr y Celfyddydau
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**

**559** ymgysylltiad gan athrawon â chynigion dysgu proffesiynol
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**

**204** grant Ewch i Weld
**(40 wedi'u tynnu'n ôl oherwydd y coronafeirws)**



## Canolbarth a Gorllewin Cymru

**204** ysgol wedi cymeryd ran yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

**230** ysgol wedi manteisio ar gynigion Dysgu Proffesiynol a Hyrwyddwyr y Celfyddydau
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**

**1005** ymgysylltiad gan athrawon â chynigion dysgu proffesiynol
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**

**363** grant Ewch i Weld
**(40 wedi'u tynnu'n ôl oherwydd y coronafeirws)**



## Canol De Cymru

**158** ysgol wedi cymeryd ran yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

**295** ysgol wedi manteisio ar gynigion Dysgu Proffesiynol a Hyrwyddwyr y Celfyddydau
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**

**988** ymgysylltiad gan athrawon â chynigion dysgu proffesiynol
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**

**198** grant Ewch i Weld
**(40 wedi'u tynnu'n ôl oherwydd y coronafeirws)**



## De Ddwyrain Cymru

**139** ysgol wedi cymeryd ran yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol


**146** ysgol wedi manteisio ar gynigion Dysgu Proffesiynol a Hyrwyddwyr y Celfyddydau
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**

**539** ymgysylltiad gan athrawon â chynigion dysgu proffesiynol
**(Rhwydweithiau Rhanbarthol i'r Celfyddydau ac Addysg)**


**102** grant Ewch i Weld
**(40 wedi'u tynnu'n ôl oherwydd y coronafeirws)**

## Atodiad C: Theori Newid

### Ffigur A1: Theori newid ar gyfer y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol



**Ffigur A2: Theori newid ar gyfer Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan**



## Atodiad D: Astudiaethau Achos Artistiaid

Mae'r adroddiadau interim wedi rhoi data ar brofiadau, cyfraniadau, ac effaith ar artistiaid. Nid yw'r adroddiad hwn am ddyblygu'r data sydd eisoes ar gael. Fodd bynnag, mae'r atodiad hwn yn cyflwyno data o astudiaethau achos a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Ni chafodd y rhain eu cynnwys mewn adroddiadau blaenorol oherwydd oedi wrth gael cymeradwyaeth gan rai artistiaid i gyhoeddi eu hanes. Cyflwynir tair astudiaeth achos yn fanwl, tra bod canfyddiadau allweddol naw arall wedi'u crynhoi yn ddienw.

### Astudiaeth Achos 1: Russell Prue

*Cefndir*

Mae Russell Prue yn disgrifio ei hun fel "darlledwr, awdur ac addysgwr", a thrwy ei waith mae ganddo brofiad helaeth o weithio'n greadigol gyda phobl ifanc a'r sector addysg ehangach. Trwy ei gwmni, Anderton Tiger, mae Russell yn dylunio ac yn helpu i redeg Gorsafoedd Addysg Fyw ar gyfer ysgolion, gyda'r nod o ymgysylltu â dysgwyr o bob oed a phob gallu er mwyn dysgu sgiliau gwerthfawr iddynt fel datrys problemau creadigol.

Ers cymhwyso fel Ymarferydd Creadigol Arweiniol yn 2016, mae Russell wedi gweithio mewn 11 ysgol fel rhan o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn 2018/19, gweithiodd Russell gyda phum ysgol, sef Ysgol Uwchradd yr Helyg, Ysgol Rhosyn Gwyn, Ysgol Gynradd Stryd Siôr, Ysgol Gynradd Phillipstown, ac, yn ddiweddar, Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd.

Dechreuodd Russell ymwneud â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol pan ofynnwyd iddo weithio gydag Ysgol Iau Hendre yng Nghaerffili ar ôl traddodi araith yng nghynhadledd flynyddol Caerffili i benaethiaid a dirprwyon.

I baratoi at ei rôl, mynychodd weithdai dysgu creadigol a oedd, yn ei farn ef, yn "rhagorol" a'r rheiny wedi'i baratoi'n dda ar gyfer gweithio un-i-un gyda disgyblion. Diolch i'r hyfforddiant hwn a'i brofiad blaenorol, teimlai Russell ei fod yn barod i weithio gydag athrawon a disgyblion ar y prosiectau. Pan ofynnwyd iddo am ofynion gweinyddol y broses ymgeisio, fodd bynnag, dywedodd fod y rhain yn helaeth ac wedi mynd â'i amser i ffwrdd o weithio ar ei brosiectau eraill.

*Amcanion*

Prif amcan ei waith oedd gwella canlyniadau creadigol, hyder iaith, a lefelau llythrennedd ymhlith pobl ifanc rhwng 12 a 14 oed (rhywiau cymysg) a'r rhain wedi'u dewis ymlaen llaw gan ysgolion ar sail lefelau llythrennedd a rhifedd. Y nod oedd datblygu prosiectau i gydweithio arnynt a gadael etifeddiaeth i bob ysgol.

*Y gwaith*

Canolbwyntiai'r gweithgareddau yn yr ysgolion ar gynorthwyo disgyblion i gynhyrchu darllediadau radio. Roedd y darllediadau hyn yn cynnwys cynnal sioeau a rhoi sylw i faterion cyfoes fel y newyddion, ac anogwyd myfyrwyr i ddatblygu eu cynnwys eu hunain. Roedd pob darllediad yn 'fyw', gyda gwrandawyr yn cael eu hannog i ffonio i mewn gyda sylwadau neu gwestiynau. Rhedai'r darllediadau radio fel arfer am awr yn y prynhawn yn wythnosol ym mhob ysgol gan ymdrin â phynciau fel troseddau cyllyll, protestiadau newid hinsawdd, modrybedd gofidiau, a 'Theori Cynllwyn yr Wythnos'. Russell arweiniai'r sesiynau, er bod athrawon yn rhan annatod o gefnogi'r broses ddysgu.







Ffynhonnell: Anderton Tiger (2019)

Er mwyn helpu athrawon i ddatblygu eu hymarfer, byddai Russell yn eu hannog i fod yn fwy hyblyg yn eu dulliau gweithio a, lle bo'n briodol, gadael i ddisgyblion "arwain eu dysgu":

> "Cydweithredu yw e yn y bôn. Yn y cefndir ydw i yno. Y myfyrwyr sy'n gwneud y gwaith. Mae'n cael ei arwain yn fawr iawn gan fyfyrwyr. Roeddwn eisiau iddo ganolbwyntio ar y myfyrwyr, a nhw'n cael siarad am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw." (**Cyfweliad astudiaeth achos, 2019**)

*Canlyniadau*

Rhan o'r rhesymeg y tu ôl i gynnal darllediadau radio'n fyw oedd datblygu hyder y myfyrwyr, ac mae Russell yn credu bod hyn wedi'i gyflawni yn arbennig oherwydd ymgysylltiad rhieni â'r darllediadau:

> "[…] yn aml nid yw rhai o'r plant hyn yn cael llawer o amser cyswllt gyda'u rhieni. Mae llawer o rieni'n gweithio'n llawn amser, felly roedd yn wych gweld y rhieni yn ffonio i mewn i'r orsaf i roi sylwadau ar ba mor dda yr oedd eu plentyn yn ei wneud ar y radio. Roedd cael y gydnabyddiaeth honno gan eu rhieni wir yn hwb i'w hyder." (**Cyfweliad astudiaeth achos, 2019**)

Mae cyflwyno darllediadau radio hefyd yn golygu bod angen datblygu sgiliau llafaredd. Gan sylwi bod gan rai o'r disgyblion sgiliau cymharol wael yn y maes hwn, mae Russell yn credu bod ei waith wedi arwain at well lefelau llafaredd i ddisgyblion yn gyffredinol, sydd wedi bod yn "fendigedig i'w weld".

Sylwodd Russell fod yr athrawon fel petaent hefyd yn fwy hyderus ynghylch mabwysiadu dull llai gorchmynnol o addysgu, gan ddeall y gallant addysgu y tu hwnt i'r hyn sydd mewn gwerslyfrau. Cred ei fod wedi eu helpu i roi'r rhyddid i fyfyrwyr "ddysgu mewn gwahanol ffyrdd".

Yn fwy cyffredinol, nododd Russell fod myfyrwyr ac athrawon wedi dweud wrtho fod y gweithgareddau wedi arwain at welliant mewn presenoldeb dosbarth a gostyngiad mewn problemau ymddygiad. Penderfynodd llawer o'r ysgolion brynu eu hoffer darlledu radio eu hunain i barhau â'r prosiectau.

Ar lefel unigol, teimlai Russell fod cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi ei helpu i ddatblygu ffrwd incwm mwy dibynadwy o ran prosiectau yn yr ysgol a thrwy werthu ei offer radio ei hun i ysgolion eraill. O ganlyniad i fod yn rhan o'r cynllun, mae Russell wedi sicrhau pedwar prosiect arall mewn ysgolion ledled Cymru, gyda thri arall ar y gweill. Ymhellach, mae Russell wedi datblygu llawer mwy o hyder wrth weithio gyda phobl ifanc o ystod o gefndiroedd a galluoedd, sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn wrth wneud cais am grantiau i wneud prosiectau eraill gyda phobl ifanc.

Roedd Russell yn gweld y gwaith hwn yn gynaliadwy, gan ei fod yn rhoi etifeddiaeth i'r ysgolion ar ôl iddo adael. Gyda chwech o'r 11 ysgol wedi prynu eu hoffer radio eu hunain,

mae'r disgyblion a'r staff wedi parhau i ddarlledu eu sioeau wythnosol, gan adeiladu ar y gwaith gyda Russell. Roedd tair o'r ysgolion eisoes yn defnyddio offer radio a brynwyd cyn i'r prosiect ddechrau.

**Astudiaeth Achos 2: Polly Snape**

*Cefndir*

Mae Polly Snape yn ymgynghorydd dysgu creadigol sy'n arbenigo'n bennaf mewn cynnal gweithdai ysgrifennu a drama i blant yn y blynyddoedd cynnar, sef Cyfnod Allweddol 1 (5–7 oed) a Chyfnod Allweddol 2 (7–11 oed). Fel Ymarferydd Creadigol, mae Polly yn canolbwyntio ar feysydd allweddol fel gemau creadigol, dysgu awyr agored, drama, a chelfyddydau mynegiannol i bawb. Hyd yma, mae wedi gweithio mewn pedair ysgol ar ran y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (sef Hiraddug, Brychdyn, Saltney Ferry, a'r Waun) ac mae bellach yn ei thrydedd flwyddyn fel Ymarferydd Creadigol Arweiniol yn dilyn ei hyfforddiant yn 2016.

Clywodd Polly am y rhaglen yn gyntaf trwy ffrind a oedd wedi bod yn gweithio ar brosiect i Gyngor y Celfyddydau a roddodd wybod iddi am yr hyfforddiant a'r cyllid oedd ar gael. Fel rhan o'r hyfforddiant, mynychodd Polly gwrs hyfforddi deuddydd a disgrifio hwnnw i fod yn "rhagorol", ond tynnodd sylw at y ffaith ei bod, oherwydd ei bod yn hunangyflogedig, wedi colli dau ddiwrnod o gyflog, sydd weithiau'n gallu gwneud pethau'n anodd yn ariannol ar adegau penodol o'r flwyddyn. Cyn ei gwaith presennol, roedd Polly yn athrawes ysgol gynradd gydag 20 mlynedd o weithio fel ymgynghorydd creadigol hunangyflogedig, a theimlai fod ei phrofiad blaenorol o weithio ym myd addysg wedi rhoi sylfaen gadarn iddi ymgysylltu â'r ysgolion fel arlunydd.

*Amcanion*

Prif nod ei gwaith oedd annog myfyrwyr i gamu y tu allan i'r ffiniau sy'n gyfforddus iddyn nhw i archwilio dulliau mwy creadigol o ddysgu mewn amgylchedd diogel. Dywedodd Polly ei bod yn ceisio gwella creadigrwydd plant a oedd, yn ei barn hi, wedi cael ei golli oherwydd cyfyngiadau'r cwricwlwm presennol. Y nod oedd datblygu prosiectau cydweithredol a oedd yn gadael gwaddol ym mhob ysgol, yn enwedig o ran dysgu yn yr awyr agored ac adrodd straeon.

Er mai nod cyffredinol gwaith Polly yw gwella creadigrwydd plant, mae sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd hefyd yn nodwedd gref yn ei gwaith, er mewn ffordd anuniongyrchol. Dywedodd Polly y gall rhifedd yn aml achosi pryder ymhlith plant; felly, gall cyflwyno elfennau o rifedd yn llai uniongyrchol trwy archwilio natur a'r amgylchedd awyr agored wella lefelau "heb ofn".

*Y gwaith*

A hithau'n Arweinydd Ysgol Goedwig Lefel 3,[50] anogai Polly ddysgu yn yr awyr agored a chynhaliodd rai o weithgareddau ei phrosiect yn yr awyr agored. Roedd llawer o'r prosiectau'n seiliedig ar adrodd straeon, ac anogwyd disgyblion i ganolbwyntio ar y straeon a oedd o ddiddordeb iddynt a chaent reolaeth lawn ar y straeon a'r themâu a ddilynwyd ganddynt. Roedd pob sesiwn fel arfer yn amrywio o un i bedair awr o hyd. Er i'r sesiynau gael eu cynnal gan Polly, roedd y pwyslais ar gydweithio rhwng y myfyrwyr a'r athrawon.

*Canlyniadau*

I athrawon, roedd y canlyniadau'n cynnwys gwella hyder wrth ddatblygu dull mwy 'organig' o addysgu sy'n bodloni anghenion ystod eang ac amrywiol o fyfyrwyr. Fel yr eglurodd Polly:

> "Wrth weithio gydag athrawon mae'n bwysig iawn mynd drwy'r broses gyfan gyda nhw, gan esbonio'r dewisiadau a wnaed, pam y cawsant eu gwneud, a pha fudd sydd iddynt. I mi, cael yr athrawon i fentro mewn ffordd ddiogel oedd y nod."

Fodd bynnag, nododd Polly fod canlyniadau cadarnhaol i athrawon yn dibynnu ar eu hymwneud â'r prosiect. Er i rai fanteisio ar y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd, teimlai y gallai'r dulliau fod wedi dychryn ychydig ar athrawon eraill a'u bod yn fwy amharod i newid eu harferion gwaith presennol.

O ganlyniad i'r prosiectau, cynyddodd hyder disgyblion a gwelwyd ymddygiad gwell yn ogystal â sgiliau gweithio mewn tîm. Yn ogystal, roedd Polly wedi deall bod y prosiectau wedi cyfrannu at ddatblygu galluoedd cryfach mewn llafaredd a rhifedd ymysg y myfyrwyr. Aseswyd hyn gan yr athrawon ar wahanol gamau o'r prosiect a'i fwydo'n ôl i Polly bob wythnos. Yn ogystal, roedd adborth gan rieni yn nodi bod plant yn mwynhau'r ysgol yn fwy o ganlyniad i'r gweithgareddau.

---

[50] Mae Arweinydd Ysgol Goedwig Lefel 3 wedi'u hachredu i gynllunio a chynnal rhaglen o brofiadau dysgu awyr agored ystyrlon mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr (ffynhonnell: Forest School Association).

Ar lefel unigol, teimlai Polly ei bod wedi datblygu mwy o hyder wrth gymryd risgiau o ganlyniad i'r prosiectau. Un enghraifft o hyn yw ei hagwedd newydd tuag at brosesau cyfweld ar gyfer cyllid grant, sy'n aml yn gofyn am ddangos gweithgaredd a ddefnyddid pe bai'n llwyddiannus. Nododd Polly, er y byddai'n haws dangos gweithgaredd sydd wedi'i brofi, roedd yn teimlo y dylai gymryd ei chyngor ei hun a bod yn fwy creadigol. Felly ceisia ddangos gweithgaredd newydd bob tro y caiff ei chyfweld, gan roi'r cyfle iddi egluro pam ei bod yn gweld hyn yn bwysig.

Teimla Polly fod ei gwaith gyda'r ysgolion wedi rhoi mwy o sefydlogrwydd iddi, gan fod y grantiau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau yn rhai sy'n para am gyfnodau hirach o gymharu â'r rhan fwyaf o brosiectau eraill.

I gloi, o safbwynt Polly, roedd profiad y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn bositif. Cyflawnwyd canlyniadau allweddol ac roedd buddion a chanlyniadau ehangach, anfwriadol hefyd, yn enwedig o ran y plant yn mynegi barn fwy cadarnhaol ar fynychu'r ysgol.

Roedd y myfyrwyr a'r athrawon wedi datgan profiadau positif o'r gweithdai o ran datblygu sgiliau, gwella hyder yn ogystal â mwynhad cyffredinol. Nodwyd gwelliant mewn sgiliau llafaredd a llythrennedd ymhlith y disgyblion a barnwyd eu bod wedi gwneud cynnydd yn gyffredinol.

**Astudiaeth Achos 3: Glenn Davidson**

*Cefndir*

Mae Glenn Davidson yn gyd-gyfarwyddwr Artstation, sef partneriaeth ryngwladol amlddisgyblaethol celf a thechnoleg wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Fel artist, mae wedi bod yn aelod gweithgar o gymuned celfyddydau gweledol Cymru gyda dros 40 mlynedd o brofiad. Yn ystod ei waith gyda'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, roedd Glenn hefyd yn Artist Arweiniol ar gyfer 'Celfyddyd a Chrebwyll', sef rhaglen gelfyddydol ac adfywio wedi'i hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru — rhaglen Creu Cymunedau Cyfoes.

Roedd Glenn wedi dod yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol fel Asiant Creadigol yn 2016. Yn ogystal, mynychodd hyfforddiant Ymarferydd Creadigol ar ôl ymateb i hysbyseb Cyngor Celfyddydau Cymru yn galw am artistiaid i weithio gydag ysgolion. Yn dilyn hyfforddiant llwyddiannus, gosodwyd Glenn gan y cynllun yn Ysgol Gynradd y Garth ger

Maesteg a datblygodd frîff a hwnnw'n cynnwys y byd naturiol o amgylch yr ysgol fel y dosbarth newydd.

*Amcanion*

Un o brif amcanion blwyddyn gyntaf y gwaith oedd annog disgyblion i feddwl am gael cymorth drwy ddefnyddio a gwneud cysylltiadau ag eraill hyd yn oed y tu hwnt i'w cyrraedd uniongyrchol. Bu disgyblion yn archwilio ar y mynydd sut y gallent symud ymlaen a datblygu eu hunain yn y dyfodol a datblygu gofod a sgiliau dychmygus i wynebu heriau. Yn ogystal, y nod oedd gwella cydweithio a gwaith tîm, gwella iechyd meddwl, a chreu maes dylanwad o amgylch Pump o Arferion Creadigol y Meddwl.

Roedd prosiect y flwyddyn gyntaf yn gweithio'n benodol gyda bechgyn yr ystyriwyd eu bod yn cael trafferthion academaidd, a thrwy gymryd rhan yn y cynllun y gobaith oedd y gallent adeiladu eu hyder, datblygu ffyrdd newydd o feddwl a chydweithio, ac yn y pen draw wella eu galluoedd academaidd mewn llafaredd a rhifedd.

*Y gwaith*

Roedd brîff y flwyddyn gyntaf yn cynnwys disgyblion yn dringo i ben eu mynydd lleol i edrych i lawr i'r dyffryn lle gallent ddychmygu llwybr eu bywyd. Gallai disgyblion weld y llwybr o'u hysgol gynradd i'r ysgol uwchradd a thros y mynyddoedd a gallent weld y gorwel pell. O'r safbwynt newydd hwn, gofynnodd disgyblion i'w hunain pwy y gallent ei alw o'r tu hwnt i'r gorwel i'w helpu ar daith eu bywyd. Galluogodd y naid ddychmygol hon i'w dyfodol i ddisgyblion ddod â ffrindiau pell a choll, arwr, archarwyr, aelodau teulu estynedig, anifeiliaid anwes, a chymdeithion tramor a theithio i'r meddwl. Yna esboniai'r plant i'r staff ac i'w gilydd eu dewisiadau a sut y gallai'r bobl ac asiantau hyn eu helpu ar daith eu bywyd.

Roedd y gweithgareddau hefyd yn cynnwys ymweld â'r Senedd, lle cyflwynodd disgyblion amrywiaeth o gwestiynau rhagorol a threiddgar ar eu bywydau a'u dyfodol yng Nghymru i'r Gweinidog ar y pryd, Ken Skates AS. Caniataodd Ken i'r dosbarth eistedd yn ei sedd weinidogol yn y Cynulliad. Roedd taith gerdded arall i gopa Mynydd y Garth gyda baneri wedi cynnwys creu caneuon gorymdeithio a hybu cynorthwyo ei gilydd rhwng y disgyblion, gyda rhai yn helpu eraill a oedd yn cael trafferth. Ymhellach, ymwelodd disgyblion â Phentref Eco Lamas yn Sir Benfro, lle dysgon nhw lawer o sgiliau cyffrous newydd er mwynhad ac i feithrin

hyder, gan gynnwys gwneud tân, creu bwâu a saethau, defnyddio cyllyll, gwneud gwersylloedd, a choginio ar danau agored.

Anogwyd disgyblion i gydweithio ac ysgrifennu a pherfformio caneuon a cherddi, gyda'r cyfraniadau'n dibynnu ar fewnbwn pob plentyn. Treuliwyd ail flwyddyn y cynllun yn dysgu sut i fod yn wenynwyr ifanc ynghyd â darganfyddiadau am wyddoniaeth wrthfiotig mêl drwy wyddonwyr o Brifysgol Caerdydd a gyflwynwyd i'r ysgol gan Glenn. Daeth trydedd flwyddyn y cynllun i ben mewn prosiect ysgol-i-ysgol olaf lle bu Ysgol Gynradd Garth yn rhannu'r hyn roeddent wedi'i ddysgu drwy'r cynllun ag Ysgol Gynradd leol Llangynwyd. Er mwyn helpu i werthuso bob blwyddyn, crëwyd ffilm yn dogfennu cynnydd gan ddisgyblion a staff a'i rhannu mewn sesiynau DPP. Roedd sesiynau addysgu artistiaid gyda disgyblion fel arfer yn rhedeg am dair awr y dydd, weithiau ddwywaith yr wythnos, dros 8-10 wythnos.

Gan ganolbwyntio ar y Pump o Arferion Creadigol y Meddwl, roedd y prosiectau'n brosesau dwys eu cydweithredu a oedd yn cynnwys Ymarferwyr Creadigol yn defnyddio syniadau creadigol disgyblion a staff wedi'u cefnogi gan yr Asiant Creadigol, Glenn. Anogwyd y disgyblion i nodi gweithgareddau a themâu diddorol. Roedd y rhain yn ffyrdd o weithio a gefnogwyd gan staff addysgu ond a oedd yn wahanol i'r ffordd y digwyddai pethau fel arfer. Teimlai Glenn fod y gwaith wedi gwella ymddygiad unigolion yn ogystal â phroblemau presenoldeb yn yr ysgol, yn ogystal â chreu cysylltiadau newydd â theuluoedd a rhieni. Roedd hyn wedi gwella lles ac wedi helpu i greu amgylchedd dysgu positif yn yr ysgol ar gyfer myfyrwyr a staff.

Yn ystod y ddwy flynedd, bu artistiaid yn gweithio gydag athrawon a staff cymorth a oedd yn rhan annatod o'r broses ddysgu, wrth iddynt wneud gwaith academaidd dilynol ar ôl sesiynau'r artistiaid gyda'r dosbarth. Roedd y dysgu seiliedig ar gelf i gyfoethogi'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn cynnwys gwaith ysgrifenedig a rhifedd.

*Canlyniadau*

I athrawon, roedd y canlyniadau'n cynnwys gwella cydweithredu, cyfathrebu, ymddiriedaeth a hyder. Nododd athrawes arweiniol y cynllun yn yr ysgol ei bod wedi dod i fwynhau addysgu eto, a sylwodd Glenn fod egni newydd bellach i'w weld yn y ddwy ysgol a gymerodd ran. Mae athrawon wedi mynegi mwy o hyder i fentro wrth addysgu a gwrando mwy ar ddisgyblion. Mae gadael i ddisgyblion arwain mwy o waith ysgol a rhoi mwy o ryddid yn arbennig o bwysig i fechgyn ifanc 6-10 oed:

> “Mae ymddiriedaeth wedi datblygu’n gryf iawn gyda’r athrawon. Maen nhw’n fwy hamddenol, a dydyn nhw ddim yn poeni cymaint bellach am fethu (gan eu bod yn gwybod y gallant ddysgu ohono).” (**Cyfweliad astudiaeth achos, 2019**)

O ran y disgyblion, y prif ganlyniadau oedd lefelau uwch o hyder a gwell dealltwriaeth o iechyd meddwl.

Rhoddwyd sylw i lafaredd a rhifedd ym mlynyddoedd 2–3 trwy ddrama a dawns. Cafodd y disgyblion y dasg gan yr artistiaid o ddefnyddio rhifau a chyfrif i ddilyn rhythmau, a hynny wedi cynorthwyo symudiadau cydlynol a dawns. Trwy berfformiadau drama, dysgodd disgyblion sut i siarad a chyfathrebu â chynulleidfaoedd a oedd yn cynnwys rhieni, dosbarthiadau hŷn ac iau yn yr ysgol, a myfyrwyr a staff o ysgolion eraill nad oeddent yn eu hadnabod. Aethpwyd i’r afael â’r materion iechyd meddwl ac ymddygiad trwy gyswllt â ffynhonnau dŵr lleol, dan arweiniad arbenigwr ffynhonnau lleol, a thrwy weithio gyda chadw gwenyn a chasglu mêl, gan ddysgu llawer o sgiliau ymarferol y mae bechgyn yn arbennig yn ymateb iddynt ac y maent yn eu mwynhau. Roedd pob elfen wedi’i chynllunio a’i dylunio’n ofalus gyda mewnbwn disgyblion i gyflawni’r canlyniadau bwriadedig yn seiliedig ar y Cynllun Gwella Ysgol (CGY).

Ar lefel unigol, nododd Glenn nad oedd ei ganlyniadau personol o ganlyniad i’r gwaith hwn wedi bod yn sylweddol, er ei fod wedi magu hyder yn ei alluoedd a’i farn ei hun yn rôl yr Asiant Creadigol.

O safbwynt Glenn, cadarnhaol oedd ei brofiad o’r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Cyflawnwyd y canlyniadau allweddol y cynlluniwyd ar eu cyfer ac roedd hefyd ystod eang o fuddion a chanlyniadau â thystiolaeth i’r ysgolion, athrawon a myfyrwyr.

Roedd y newid yn y cwricwlwm yn bwynt allweddol i Glenn, a nododd ei fod yn teimlo’n gadarnhaol am y newidiadau. Nododd fod y prosiectau hyn yn galluogi artistiaid ac athrawon i fynd y tu hwnt i’w ffiniau arferol i archwilio a dysgu pethau newydd. Dywedodd pennaeth y Garth wrth Glenn fod yr ysgol gyfan yn teimlo ei bod wedi’i pharatoi’n llawer gwell at heriau’r cwricwlwm newydd.

**Canfyddiadau ychwanegol yn seiliedig ar astudiaethau achos eraill[51]**

Ymhlith y gweithgareddau ar draws yr astudiaethau achos eraill cafwyd gweithdai ar adrodd straeon, darlunio llyfrau, a phaentio. Canolbwyntient ar ystod o themâu, o amgylchedd yr awyr agored i lygredd yn y cefnforoedd a phwysigrwydd meithrin cyfeillgarwch.

Roedd y gweithgareddau a'r gweithdai yn gydweithredu cryf rhwng ymarferwyr, asiantau, ysgolion a myfyrwyr. Er bod athrawon weithiau ychydig yn bryderus ynghylch y defnydd o arferion creadigol, nodwyd bod y mwyafrif yn ymgysylltu'n dda ac yn gweld gwerth y dull hwn iddynt hwy eu hunain a'u myfyrwyr.

Adroddodd artistiaid ystod o ddeilliannau cadarnhaol i ddisgyblion, athrawon a chymuned ehangach yr ysgol. Y canlyniadau a adroddwyd amlaf i fyfyrwyr oedd mwy o hyder yn ogystal â gwell sgiliau llafaredd, er bod rhai ymarferwyr hefyd wedi nodi gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd ac mewn meysydd fel ymddygiad a chreadigrwydd.

Dywedodd rhai ymarferwyr ar y dechrau ei bod yn anodd ymgysylltu â rhai athrawon oherwydd eu bod yn ansicr neu'n amheus ynghylch dulliau creadigol. Canlyniad sylfaenol y prosiectau hyn, fodd bynnag, oedd cynnydd mewn hyder i ymgysylltu â thechnegau creadigol newydd a'u hymgorffori yn eu haddysgu. Nododd un ymarferwr fod cael Asiant Creadigol a oedd wedi bod yn gyn-athro wedi gweithio'n dda, gan ei fod yn gallu cyfathrebu'n llwyddiannus ag athrawon. Yn gyffredinol, roedd gan athrawon ymwybyddiaeth gryfach o bwysigrwydd dysgu hyblyg, ac ers diwedd y gweithdai/gweithgareddau, mae llawer o'r athrawon wedi parhau i wella a chynyddu eu creadigrwydd yn y dosbarth.

Ar gyfer ysgolion yn gyffredinol, dywedodd llawer o ymarferwyr fod brwdfrydedd a diddordeb mynd ati'n ehangach i ymwreiddio dysgu creadigol. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, roedd yn rhy gynnar i ddweud a oedd hyn wedi'i gyflawni. Nododd rhai ymarferwyr fod rhai ysgolion yn fwy parod i dderbyn y rhaglen nag eraill, lle teimlwyd, er enghraifft, ei bod yn fwy o 'ymarfer ticio blychau'.

[51] Ni chafwyd caniatâd gan bawb i gyhoeddi astudiaethau achos llawn, er bod pawb yn fodlon i'r canfyddiadau gael eu crynhoi.

I artistiaid, roedd y ffaith bod y prosiectau hyn yn ffrydiau ariannu tymor hwy o fudd ariannol i'w sefydliad. Yn gyffredinol, teimlwyd bod gan ysgolion fwy o barch at y gwaith yr oeddent yn ei wneud, tra bod rhai artistiaid bellach yn adrodd bod ganddynt ddealltwriaeth well o addysgeg.

## Atodiad F: Offeryn Pump o Arferion Creadigol y Meddwl

Dyluniwyd offeryn Pump o Arferion Creadigol y Meddwl[52] i werthuso effaith gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar sgiliau creadigol y disgyblion sy'n rhan o'r cynllun. Gwahoddwyd yr holl athrawon a oedd yn ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i gyflenwi data drwy'r offeryn, er nad oedd hyn yn orfodol. Y diben oedd darparu data gwerthuso cyffredin er mwyn cael tystiolaeth o effeithiau'r rhaglen.

Mae'r offeryn hwn yn seiliedig ar y model a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Spencer et al. (2012), trwy ymchwil a ariannwyd gan y sefydliad Creativity, Culture and Education (CCE). Mae hwn yn offeryn ymchwil meintiol sy'n cipio pum parth sydd gyda'i gilydd yn archwilio galluoedd creadigol unigolyn: bod yn chwilfrydig, dyfalbarhau, bod yn llawn dychymyg, disgyblaeth a chydweithredu. Nodwyd yr arferion meddwl creadigol canlynol fel dangosyddion creadigrwydd:

1. Chwilfrydig
    - Meddwl a holi
    - Archwilio ac ymchwilio
    - Herio rhagdybiaethau.
2. Dyfalbarhau
    - Dal ati drwy anawsterau
    - Beiddio bod yn wahanol
    - Goddef ansicrwydd.
3. Llawn dychymyg
    - Chwarae â phosibiliadau
    - Gwneud cysylltiadau
    - Defnyddio greddf.
4. Cydweithredu
    - Rhoi a derbyn adborth
    - Rhannu cynnyrch creadigol

[52] Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr offeryn hwn yma (Saesneg yn unig): 5 Creative Habits of Mind Tool.

- Cydweithio'n addas.

5. Disgybledig
    - Datblygu technegau
    - Adfyfyrio'n feirniadol
    - Saernïo a gwella.

Rhoddwyd sgôr gan yr athro i'r gwelliant a wnaed gan ddisgyblion unigol ym mhob categori ar raddfa o 1–10 ar ôl y gweithgaredd (1 = dim gwelliant a 10 = y gwelliant mwyaf arwyddocaol). Roedd hwn felly yn farn a luniwyd gan athrawon unigol yn seiliedig ar ganllawiau cyffredin.

**Copi o’r ffurflen Pump o Arferion Creadigol y Meddwl**

Cynlluniwyd yr offeryn hwn i helpu athrawon i adfyfyrio ar ddisgyblion ac i ba raddau y gallai’r arferion hyn fod wedi newid o ganlyniad i’r prosiect.

Os ydych yn gweithio gyda llai na 10 myfyriwr, atebwch y cwestiynau ar gyfer pob myfyriwr.

Os ydych yn gweithio gyda mwy na 10 myfyriwr, atebwch y cwestiynau ar gyfer o leiaf 10 myfyriwr.

I weld crynodeb o’ch holl ymatebion, cliciwch ar ‘Gweld Ymatebion Blaenorol’ ar ôl i chi gyflwyno’ch holl wybodaeth.

Mae’r offeryn hwn yn seiliedig ar y model a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Ellen Spencer, Bill Lucas, a Guy Claxton drwy ymchwil a ariannwyd gan CCE, sef ‘Progression in creativity: Developing new forms of assessment. Newcastle: CCE and OECD Education Working Paper No. 86, EDU/WKP(2013)1)*’* (Spencer, E., Lucas, B. a Claxton, G. 2012).

1. A fyddai’n well gennych gwblhau’r holiadur yn Gymraeg neu Saesneg? Dewiswch yr un opsiwn iaith ar gyfer popeth a gyflwynwch.

*Gwybodaeth am y disgybl*

2. Enw llawn y disgybl
Meddyliwch am y disgybl hwn mewn cysylltiad â’r Pump o Arferion Creadigol y Meddwl. Faint o newid ydych chi wedi’i weld yn y disgybl hwn o ran y prosiect hwn?

*Darllenwch yn ofalus*

Pwrpas yr offeryn hwn yw casglu eich myfyrdodau ar y graddau y mae disgyblion wedi newid/gwneud cynnydd yn yr arferion hyn. Dewiswch o raddfa rhwng 1 a 10, lle mae 1 yn golygu dim newid o gwbl a 10 yn newid mawr. Peidiwch â phoeni os nad oes llawer o newid, os o gwbl, wedi bod mewn rhai Arferion Creadigol y Meddwl ar gyfer rhai disgyblion. Efallai bod y dysgwr eisoes yn eithaf medrus yn yr arfer hwn. Efallai nad oedd y prosiect yn targedu’r arfer hwn. Bydd gofyn i chi egluro eich atebion yn fyr.

3. Chwilfrydig

Meddwl a holi; archwilio ac ymchwilio; herio rhagdybiaethau

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

4. Dyfalbarhau

Dal ati drwy anawsterau; beiddio bod yn wahanol; goddef ansicrwydd

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

5. Llawn dychymyg

Chwarae â phosibiliadau; gwneud cysylltiadau; defnyddio greddf

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

6. Cydweithredu

Rhannu'r cynnyrch; rhoi a derbyn adborth; cydweithio'n addas

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

7. Disgybledig

Datblygu technegau; adfyfyrio'n feirniadol; saernïo a gwella

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

8. Eglurwch yn gryno sut ac/neu pam yr ydych yn meddwl bod y prosiect wedi cael yr effaith hon (neu ddim effaith) ar y disgybl hwn.

## Atodiad G: Holiadur Hunaneffeithiolrwydd

Datblygwyd yr holiadur (hunan)effeithiolrwydd er mwyn casglu data ynghylch canlyniadau effeithiolrwydd yr ymyriadau o du'r disgyblion. Gofynnwyd i ddisgyblion ymateb i gyfres o ddatganiadau mewn holiadur cyn yr ymyriad, ac yna'r un datganiadau mewn holiadur ar ôl yr ymyriad. O'u cyfuno, mae'r canlyniadau'n dangos a yw gweithgaredd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith bositif neu negyddol ar y disgyblion o ran y datganiadau.

Mae tablau A1 ac A2 isod yn nodi'n fanwl y datganiadau a gyflwynwyd i ddysgwyr fel rhan o'r holiadur hunaneffeithiolrwydd. Gofynnwyd yr un cwestiynau cyn ac ar ôl yr ymyriad a chafodd yr ymatebion eu cymharu. Mae'r golofn 'Newid' yn nodi a yw'r ymateb i'r datganiad wedi bod yn bositif neu'n negyddol, ac mae'r golofn 'arwyddocaol yn ystadegol' yn nodi a oes modd priodoli'r newid i'r ymyriad.

Mae Tabl A1 yn nodi mai mewn wyth achos yn unig y cafwyd newidiadau arwyddocaol a oedd hefyd yn bosibl priodoli i'r ymyriad. Roedd pedwar o'r rhain yn ymatebion positif yn ymwneud â gwaith ysgol yn bod yn ddifyr a diddorol. Fodd bynnag, roedd y pedwar arall yn achosion lle dywedodd dysgwyr eu bod yn teimlo'n llai diogel, yn pryderu fwy ac yn mwynhau pethau'n llai. Er bod canlyniadau yn arwyddocaol yn ystadegol mewn wyth achos, y casgliad mwy cyffredinol i ddod iddo yw nad yw'r data yn dangos patrwm data ar hunaneffeithiolrwydd sy'n ystyrlon neu'n ddefnyddiol i'r gwerthusiad.

### Tabl A1: Hunaneffeithiolrwydd dysgwyr Blwyddyn 3–4

| Datganiad | Newid | Arwyddocaol yn ystadegol |
|---|---|---|
| Dwi'n cael cyfle i ddysgu pethau diddorol | Positif | Ydi |
| Dwi'n gallu dewis sut i wneud gweithgareddau | Positif | Nac ydi |
| Mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yn hwyl | Positif | Ydi |
| Mae'r gwaith yn rhy anodd i mi | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n mynd i boeni pan fydda i'n gweithio | Positif | Ydi |
| Mae plant eraill yn gwrando ar fy syniadau | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n rhoi llawer o ymdrech i mewn i fy ngwaith | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n fodlon siarad am fy ngwaith gyda'r athrawon | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo'n dda amdanaf fy hun | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo'n iach | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo fy mod yn gwneud yn dda | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo'n ddigalon | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo bod gen i lawer o egni | Positif | Nac ydi |

| Datganiad | Newid | Arwyddocaol yn ystadegol |
|---|---|---|
| Dwi'n teimlo bod pobl yn gofalu amdanaf | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo'n werthfawr | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo'n bryderus | Positif | Ydi |
| Dwi'n teimlo fy mod yn gallu delio â phroblemau | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo wedi diflasu | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo bod pobl yn sylwi arnaf | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo bod llawer o bethau i edrych ymlaen atyn nhw | Positif | Ydi |
| Dwi'n teimlo'n ddiogel | Negyddol | Ydi |
| Dwi'n teimlo'n hyderus | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo bod llawer o bethau yn ymdrech go iawn | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo fy mod yn mwynhau pethau | Negyddol | Ydi |
| Dwi'n teimlo'n unig | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo'n gyffrous am lawer o bethau | Positif | Ydi |
| Dwi'n teimlo'n hapus | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo fy mod yn cael fy nhrin yn deg | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n teimlo bod pobl yn gyfeillgar | Negyddol | Nac ydi |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ymatebion i holiadur hunaneffeithiolrwydd blwyddyn 3-4 lle gellid paru holiaduron cyn ac ar ôl ymyriad (N=317)

Mae Tabl A2 isod yn amlinellu canfyddiadau'r holiadur hunaneffeithiolrwydd cyn ac ar ôl ymyriad fel y'i cwblhawyd gan ddysgwyr Blwyddyn 5–6. Er y gellid cysylltu ymateb arwyddocaol tri datganiad â'r ymyriad, methodd y data unwaith eto â chynnig cydberthynas glir neu arwyddocaol ar draws yr ymatebion.

### Tabl A2: Hunaneffeithiolrwydd dysgwyr Blwyddyn 5–6

| Datganiad | Newid | Arwyddocaol yn ystadegol |
|---|---|---|
| Dwi'n cael cyfle i ddysgu pethau diddorol mewn gwersi | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n gallu dewis sut i wneud gweithgareddau mewn gwersi | Positif | Nac ydi |
| Mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yn hwyl | Negyddol | Nac ydi |
| Mae'r gwaith yn rhy anodd i mi | Positif | Nac ydi |
| Mae'r hyn dwi'n ei ddysgu yn bwysig i fy nyfodol | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n mynd i boeni pan fydda i'n gweithio mewn gwersi | Positif | Nac ydi |
| Mae plant eraill yn gwrando ar fy syniadau mewn gwersi | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi'n rhoi llawer o ymdrech i mewn i fy ngwaith | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n gwneud gwaith da yn yr ysgol | Positif | Nac ydi |
| Dwi'n fodlon siarad am fy ngwaith gyda'r athrawon | Positif | Nac ydi |

| Datganiad | Newid | Arwyddocaol yn ystadegol |
|---|---|---|
| Dwi’n edrych ymlaen at ddysgu mwy yn y dyfodol | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo’n dda amdanaf fy hun | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo’n iach | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo fy mod yn gwneud yn dda | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo’n ddigalon | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo bod gen i lawer o egni | Positif | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo bod pobl yn gofalu amdanaf | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo’n werthfawr | Positif | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo’n bryderus | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo fy mod yn gallu delio â phroblemau | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo wedi diflasu | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo bod pobl yn sylwi arnaf | Positif | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo bod pobl yn gyfeillgar | Negyddol | Ydi |
| Dwi’n teimlo bod llawer o bethau i edrych ymlaen atyn nhw | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo’n ddiogel | Negyddol | Ydi |
| Dwi’n teimlo’n hyderus | Positif | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo bod llawer o bethau yn ymdrech go iawn | Positif | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo fy mod yn mwynhau pethau | Positif | Ydi |
| Dwi’n teimlo’n unig | Positif | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo’n gyffrous am lawer o bethau | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo’n hapus | Negyddol | Nac ydi |
| Dwi’n teimlo fy mod yn cael fy nhrin yn deg | Positif | Nac ydi |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ymatebion i holiadur hunaneffeithiolrwydd blwyddyn 5-6 lle gellid paru holiaduron cyn ac ar ôl ymyriad (N=2)

Derbyniwyd 129 o ymatebion pellach i’r holiadur cyn ac ar ôl ymyriad hefyd ar gyfer dysgwyr blwyddyn 7–9. Fodd bynnag, ni ystyriwyd bod ynddynt unrhyw newidiadau arwyddocaol yn ystadegol mewn hunaneffeithiolrwydd.

## Atodiad H: Mesur Cyrhaeddiad Disgyblion

Roedd yr amrywio rhwng ysgolion a natur bwrpasol pob ymyriad yn golygu ei bod yn anodd cyffredinoli ynghylch effaith y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyrhaeddiad disgyblion. Her arall i asesiad manwl o'r effaith ar berfformiad oedd gallu datgysylltu'r ymyriad ac asesu ei effaith yn annibynnol ar yr ystod o elfennau eraill ym mywyd ysgol a bywyd personol sy'n effeithio ar berfformiad.

Roedd adroddiadau interim ar gyfer gwerthuso'r rhaglen hon hefyd wedi nodi bod natur ac ansawdd y data ar y ffurflenni gwerthuso a gyflwynwyd gan athrawon yn amrywio o'r naill gyflwyniad i'r llall, gan danseilio ymhellach pa mor gyffredinol oedd y data a'i ddefnyddioldeb at ddibenion gwerthuso'r rhaglen gyfan. Ni allai'r gwerthusiad bwyso ar yr un math o ddata i werthuso'r ymyriadau, ac roedd rhai ffynonellau'n fwy cadarn nag eraill. Oherwydd amrywiaeth yn natur y data, ni fu'n bosibl sicrhau mesuriad cyffredin ar gyfer effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad ar draws y rhaglen. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r data i nodi'r effaith y mae athrawon yn gyffredinol yn credu bod yr ymyriad wedi'i chael ar gyrhaeddiad dysgwyr.

Yn gyntaf oll, aethpwyd ati i gategoreiddio'r data o'r ffurflenni gwerthuso ar sail ansawdd neu'r math o ddata y defnyddiodd yr athrawon i gefnogi eu barn. Defnyddiwyd pum categori:

### Categori Un

Aseswyd bod y data hwn o'r ansawdd gorau gan ei fod yn cyfeirio'n benodol at gynnal asesiad gwaelodlin ar ddysgwyr cyn y prosiect a'r asesiad wedyn yn cael ei ailadrodd ar ôl yr ymyriad i fesur effaith neu newid. Roedd y data hwn fel arfer yn cynnwys defnyddio mesuriadau cyrhaeddiad a gymeradwyir gan y proffesiwn neu'r diwydiant, er enghraifft Incerts neu brofion cenedlaethol,[53] ond gallai hefyd gynnwys asesiadau pwrpasol a grëwyd gan ymarferwyr i asesu effaith.

[53] I gael rhagor o wybodaeth am brofion cenedlaethol, ewch i Asesiadau Personol Cenedlaethol ar Gyfer Darllen a Rhifedd: llawlyfr gweinyddu 2023 i 2024

**Categori Dau**

Ystyriwyd bod data yn y categori hwn o ansawdd uchel gan y cyfeiriwyd at ddefnyddio systemau monitro neu fesur cyrhaeddiad a oedd wedi'u cymeradwyo'n broffesiynol neu gan y diwydiant, er enghraifft Incerts neu brofion cenedlaethol, fodd bynnag ni chyfeiriwyd at gasglu mesuriadau gwaelodlin cyn yr ymyriad er mwyn asesu effaith.

**Categori Tri**

Codwyd y data hwn o systemau monitro neu fesur cyrhaeddiad eraill a'r data wedi'i godi ar ôl i'r ymyriad ddigwydd. Roedd y rhain yn cynnwys data fel targedau heriau neu is-lefelau, neu arsylwi ffurfiol gan ymarferwyr.

**Categori Pedwar**

Roedd y data hwn yn arsylwadol neu'n anecdotaidd ei natur, er enghraifft yn cynnwys barn staff heb gyfeirio at unrhyw system fonitro na chyrhaeddiad.


**Amherthnasol**

Cafodd data ei godio fel Amherthnasol pan na fesurwyd yr effaith ar gyrhaeddiad ac ni chyfeiriwyd ato wrth gyflwyno'r ffurflen.

Sylwer er bod yr ymatebion wedi'u categoreiddio yn y dull hwn, mae gwahaniaethau'n parhau rhwng y cyflwyniadau ymhob categori. O ganlyniad, hyd yn oed o fewn categorïau, nid yw wedi bod yn bosibl cael mesuriad cyffredin.

Mae Ffigur A3 isod yn nodi nifer a chyfran yr ymatebion sy'n disgyn i bob categori o ran ansawdd y data. Roedd mwy na hanner yr ymatebion yn seiliedig ar ddata cadarn. Roedd 99 o'r ymatebion (25%) yn perthyn i Gategori 1, sef categori'r data mwyaf cadarn, tra bo 131 (33%) yn disgyn i Gategori 2, sy'n ymwneud â data cadarn a gymeradwywyd gan y diwydiant neu'r proffesiwn ond heb ei gynnal cyn ac ar ôl yr ymyriad.

**Ffigur A3: Categoreiddio'r data**




Ffynhonnell: ffurflenni gwerthuso terfynol, data wedi'i gyfuno o 2017 hyd at 2019 (N=595)


Wedi hynny, cafodd yr ymatebion ymhob categori eu codio yn unol â'r effaith yr oedd yr ymyriad wedi ei chael, yn nhyb yr athrawon, ar gyrhaeddiad y dysgwyr. Dyma'r categorïau a ddefnyddiwyd:

- Effaith gadarnhaol: pan fo athrawon wedi dweud bod gwelliant amlwg mewn cyrhaeddiad oherwydd yr ymyriad, neu pan fo'r data a ddarparwyd wedi dangos o leiaf pump y cant o welliant yn sgoriau'r profion cyn ac ar ôl yr ymyriad neu wedi codi i lefel neu is-lefel uwch mewn asesiadau ar ôl y prosiect mewn pynciau fel llafaredd, llythrennedd neu fathemateg.
- Rhannol gadarnhaol: pan nad oedd athrawon yn teimlo'n hyderus yn priodoli unrhyw welliannau i'r ymyriad yn benodol, neu pan fo'r data wedi awgrymu gwelliannau bach yn unig, o lai na phump y cant.
- Dim newid arwyddocaol: pan nad oedd athrawon yn ystyried bod yr ymyriad wedi cael unrhyw effaith ar gyrhaeddiad, neu pan nad oedd y data yn awgrymu bod unrhyw effaith.
- Rhannol negyddol: pan oedd cyrhaeddiad dysgwyr wedi dirywio yn ystod cyfnod yr ymyriad ond nid oedd athrawon yn priodoli'r dirywiad i'r ymyriad yn benodol.

- Yn aros am ganlyniadau: Nid oedd y gwaith o brofi'r cyrhaeddiad wedi dod i gasgliad eto ar adeg yr holi.
- Dim Sylwadau: pan nad oedd athrawon wedi cynnig sylwadau am effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad y dysgwyr, neu pan nad oedd yr adrodd yn berthnasol (e.e. yn ymwneud â sgiliau meddal).

Mae Ffigur A4 isod yn amlinellu'r effaith ganfyddedig a gafodd yr ymyriad ar gyrhaeddiad dysgwyr. Mae nifer yr ymatebion yn cynrychioli 62 y cant o'r ymatebion a fanylodd ar y data a ddefnyddiwyd i werthuso'r effaith. Methodd y 38 y cant arall â nodi yn eu ffurflenni gwerthuso pa effaith a gafodd yr ymyriad ar ddysgwyr ac o ganlyniad cawsant eu tynnu o'r dadansoddiad. Awgrymai'r data fod mwyafrif sylweddol o'r ymatebion yn dangos bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad dysgwyr. Dim ond pedwar y cant o'r ymatebion a awgrymodd nad oedd yr ymyriad wedi cael effaith.

**Ffigur A4: Effaith ganfyddedig ar gyrhaeddiad dysgwyr**





Ffynhonnell: ffurflenni gwerthuso terfynol, data wedi'i gyfuno o 2017 hyd at 2019 (N=366)

Mae Ffigur A5 isod yn amlinellu'r ymatebion fesul categori, gydag 'Aros am ganlyniadau' a 'Dim sylw' wedi'u tynnu allan. Mae'r canlyniadau'n awgrymu po orau yw ansawdd y data sydd ar gael a'r mwyaf trwyadl yw'r dull o werthuso'r effaith ar gyrhaeddiad, y mwyaf tebygol oedd athrawon o nodi effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad o ganlyniad i ymyriad yr Ysgolion

Creadigol Arweiniol. Yn wir, credir bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad mewn 94 y cant o achosion lle ceid profion cyn ac ar ôl perfformiad, ac mewn 87 y cant o achosion lle defnyddid systemau monitro neu fesuriadau cyrhaeddiad a gymeradwyir gan y proffesiwn neu'r diwydiant. Gall y data roi hyder bod yr ymyriad yn gyffredinol wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad dysgwyr.

**Ffigur A5: Effaith yn ôl categori data**




Ffynhonnell: ffurflenni gwerthuso terfynol, data wedi'i gyfuno o 2017 hyd at 2019 (N=315)